



Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

Cynorthwyo dioddefwyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus

Mawrth 2023

Comisiynwyd gan: Hyb ACE Cymru | Darparwyd gan: Bec Woolley



Cydnabyddiaethau:

Estynnir diolch i'r sefydliadau a'r unigolion hynny a roddodd o'u hamser yn hael i gymryd rhan yn y gwaith hwn.

ISBN: 978-1-83766-193-0

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Cynnwys.....	1
Crynodeb Gweithredol.....	2
Rhagymadrodd.....	4
Goroeswyr sydd wedi’u cloi allan o wasanaethau	6
Cyfle i wella yng Nghymru.....	8
Data: deall pwy mae hyn yn effeithio arnynt, a sut	10
Cyfyngiadau datganoli	15
Llwybr at gymorth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	16
Cymorth ymarferol i lywio’r ddeddfwriaeth	19
Pam nad yw pobl yn cael cymorth o hyd?	20
Cymhlethdod uchel, risg uchel, amledd isel	21
Sefydlu llwybr clir.....	23
Canoli’r arbenigedd: datgloi’r cylch.....	25
Cymhwysedd ar gyfer arian cyhoeddus: llywio’r system.....	26
Uniongyrchedd cymorth: Cronfa ganolog	29
Gwasanaethau ‘gan ac ar gyfer’ arbenigol	31
Cynaliadwyedd tymor hwy: Buddsoddi mewn newid systemig.....	33
Gwneud cynnydd go iawn yng Nghymru	35
Casgliadau	37
Atodiad A: Llyfryddiaeth.....	38
Atodiad B: Y Cyfweleion a Gyfrannodd	40

Crynodeb Gweithredol

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd 'Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol', lle argymhellodd y 'dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau ei defnyddio i gynorthwyo menywod mudol sy'n ddioddefwyr, neu oroeswyr Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd ac sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.' Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn llawn, ac mae swyddogion wrthi'n cwmpasu sut y gallai cynllun o'r fath edrych.

Mae'n hanfodol bod unrhyw fuddsoddiad o'r fath yn cael ei sianelu yn y ffordd fwyaf effeithiol, i gynorthwyo'r bobl y mae arnynt ei angen fwyaf, a bod gwasanaethau presennol yn cael eu hystyried yn y broses.

Mae prinder data sydd ar gael ers tro ynghylch goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV) sydd ag Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF). Fodd bynnag, erbyn hyn mae corff rhesymol o lenyddiaeth ar gael, er ei fod wedi'i wasgaru ar draws ystod eang o ffynonellau, ac yn dod o safbwyntiau amrywiol ar draws llawer o adrannau'r Llywodraeth mewn meysydd polisi datganoledig ac annatganoledig. Mae'r sensitifrwydd a'r heriau sy'n gysylltiedig â chasglu data mwy gronynnog, a'r niwed sylweddol y mae goroeswyr yn ei wynebu, yn awgrymu ei bod yn hollbwysig bwrw ymlaen a datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n hysbys ar hyn o bryd. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod modelu a darparu gwasanaethau mewn modd ailadroddol, gan gasglu data ar hyd y ffordd, gan ddysgu a gwella'n barhaus.

Rhaid i wasanaethau sydd newydd eu comisiynu ystyried y dyletswyddau cyfreithiol presennol ar wasanaethau statudol yma yng Nghymru, yn enwedig o ystyried cyd-destun datganoledig Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae ffocws ar Gynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru yn golygu bod canllawiau newydd sy'n berthnasol i bobl sydd ag NRPF yn dod i'r amlwg ar yr un pryd o wahanol adrannau o Lywodraeth Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn gymhleth, ond maent yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer sut y mae'n rhaid i wasanaethau newydd weddu i'r cyfyngiadau deddfwriaethol presennol, a'r we bresennol o bolisiau a darpariaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno elfennau allweddol o'r llenyddiaeth, yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n benodol i Gymru. Mae'n mynd i'r afael yn benodol â'r ffaith, er gwaethaf rhwyd ddiogelwch Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bod goroeswyr VAWDASV sydd â NRPF yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol o ran manteisio ar gymorth.

Prif argymhelliad yr adroddiad hwn yw y dylid sefydlu tîm canolog, i dorri drwy'r cylch cymhlethdod, risg ac amllder achosion isel, sy'n ymddangos fel pe bai'n parhau â'r rhwystrau presennol i fynediad. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i awgrymu y dylid gwneud gwaith ar unwaith er mwyn cytuno ar lwybr cymorth clir i oroeswyr VAWDASV sydd â NRPF yng Nghymru. Dylid datblygu cynllun strategol cysylltiedig, a dylid rhoi gwasanaethau sydd newydd eu comisiynu ar waith yng nghyd-destun y cynllun tymor hwy hwn, yn hytrach na'u comisiynu yn elfennau unigol o'r ddarpariaeth.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol na ddylai gwelliannau i wasanaethau (gan gynnwys buddsoddiad newydd) gael eu gohirio ar sail cynllunio strategol. Yn hytrach, dylid rhoi gwasanaethau ar waith ar sail y sylfaen dystiolaeth bresennol, ond gan roi sylw i'r cyd-destun strategol tymor hwy. Dylai tîm arbenigol canolog, ac ymrwymiad i lwybr a chynllun, ddod i'r amlwg ochr yn ochr â buddsoddiad ychwanegol, yn rhan o'r camau i'w gweithredu. Wrth ddarparu'r cymorth canolog ar gyfer buddsoddiad newydd, ac ymestyn y cymorth hwnnw ar draws y gwasanaethau presennol sydd ar gael i'r grŵp hwn, byddwn yn gallu casglu rhagor o ddata a chanfyddiad, gwella gwasanaethau'n ailadroddol, a chreu gwasanaethau mwy cyson ddibynadwy ar gyfer goroeswyr.

Nod yr adroddiad hwn yw torri drwy'r cymhlethdod presennol, a chanolbwyntio ar rai meysydd allweddol ar gyfer gweithredu ymarferol ar unwaith. Yn hollbwysig, rhaid i'r camau ymarferol cychwynnol hyn gael eu hategu gan lwybr a chynllun strategol clir, wedi'u harwain a'u cynorthwyo gan dîm canolog sydd ag adnoddau. Bydd hyn yn darparu eglurder a manwl gywirdeb lle mae dryswch ar hyn o bryd, sy'n hanfodol er mwyn cynorthwyo goroeswyr VAWDASV yn well gyda NRPF yn y dyfodol.

Rhagymadrodd

Mae Hyb ACE Cymru wedi comisiynu'r adroddiad annibynnol hwn, i gynorthwyo datblygiad cronfa yng Nghymru sy'n darparu cymorth ariannol i'r rheini sy'n ddioddefwyr trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd (SGBV) ac nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus.

Mae wedi ei gomisiynu ar adeg hollbwysig yn natblygiad y sylfaen dystiolaeth a'r llenyddiaeth sydd ar gael. Rhyddhaodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig gyfres o adroddiadau rhwng 2021 a 2022 sy'n cyflwyno canfyddiadau cadarn, gan gynnwys ymchwil ansoddol lle mae lleisiau'r rhai sydd â phrofiad byw yn cael eu hamlygu. Mae gwaith y Comisiynydd hefyd yn nodi meysydd o arfer da o fodelau gwasanaeth presennol, a newidiadau arfaethedig a allai wella'r dirwedd cymorth i oesoedwyr yn sylweddol.

Ynghyd â'r llenyddiaeth bresennol o ystod eang o ffynonellau eraill ledled y DU, gan gynnwys darnau penodol o waith sy'n berthnasol i Gymru, mae ffynhonnell gyfoethog o ddeunydd i'w defnyddio wrth geisio gwella a buddsoddi.

Methodoleg

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ymarfer ymchwil bwrdd gwaith, wedi'i gyfoethogi gan sgysiau ag unigolion sy'n ymwneud ar hyn o bryd â thirwedd darparu gwasanaethau a llunio polisïau yng Nghymru, ar gyfer pobl sy'n goroesi VAWDASV, ac sydd hefyd NRPF.

Mae llyfryddiaeth ar gael yn Atodiad A, yn dangos yr holl lenyddiaeth yr ymgynghorwyd â hi, pa un ai a yw wedi'i dyfynnu yn yr adroddiad ai peidio.

Mae rhestr o'r bobl a gymerodd ran yn y sgysiau wedi'i chynnwys yn Atodiad B.

Mae dyfyniadau perthnasol wedi'u tynnu o'r llenyddiaeth ac wedi'u cyflwyno drwy gydol yr adroddiad. Maent wedi'u dewis naill ai oherwydd eu bod yn distyllu neu'n egluro'r sefyllfa bresennol, neu eu bod yn cyflwyno canfyddiadau a thystiolaeth a all lywio datblygiad cymorth gwell yng Nghymru yn ymarferol.

Nod yr adroddiad yw:

- Cyflwyno trosolwg eang o'r meysydd diweddaraf a/neu'r rhai mwyaf perthnasol yn y llenyddiaeth, heb orlethu;
- Dyfynnu canfyddiadau o'r llenyddiaeth sy'n berthnasol i ddylunio gwasanaethau, gwella a chynllunio at y dyfodol yma yng Nghymru;
- Llunio datganiadau allweddol o'r canllawiau presennol yng Nghymru, i fod yn glir ynghylch y cyd-destun deddfwriaethol a gweithredol y darperir gwasanaethau ynddo;
- Pontio'r bwlch rhwng ymchwil ac ymarfer, gan wneud cysylltiadau clir o'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r llenyddiaeth, er mwyn llywio camau ymarferol tuag at system well o gymorth yng Nghymru wrth symud ymlaen.

Cyd-destun ystyriol o drawma

Mae cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru yn cydnabod o fewn ei ddatganiad agoriadol iawn pa mor ganolog yw trawma ym mhrofiadau llawer o bobl sy'n ceisio noddfa:

'Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cyrraedd Cymru yn dilyn profiadau trawmatig yn eu gwledydd gwreiddiol ac ar eu teithiau i'r DU. Rydym am sicrhau bod yr unigolion hyn yn cael eu cynorthwyo i ailadeiladu eu bywydau a gwneud cyfraniad llawn at gymdeithas Cymru'¹.

Mae adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig, 'Safety Before Status' hefyd yn amlygu pwysigrwydd deall effaith trawma a'i gyflwyniad wrth weithio i gynorthwyo goroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF:

'Mae'n bosibl y bydd dioddefwyr a goroeswyr sydd wedi profi trawma cymhleth, gan gynnwys cyflawnwyr yn bygwth y cânt eu hallgludo a'u carcharu, hefyd yn fwy tebygol o gael eu gweld gan weithwyr proffesiynol yn rhai sy'n arddangos 'ymddygiad gwrthgymdeithasol'. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau cyfannol addas sy'n benodol i rywedd ac wedi'u llywio gan drawma yn cael eu cynnig i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig...'²

Yn ddiweddar, cyd-gynhyrchodd Hyb ACE Cymru 'Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Ymagwedd Gymdeithasol at Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd', gyda phobl a sefydliadau ledled Cymru, a chyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae'n cyflwyno Fframwaith Arfer sy'n Ystyriol o Drawma, sydd â'r nod o 'ddatblygu Cymru ac sy'n cydnabod ac sy'n ymateb i drawma a'i effeithiau mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwella iechyd a lles y rhai yr effeithir arnynt'³.

Wrth i wasanaethau gael eu gwella yng Nghymru i gynorthwyo'n well oroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF, mae cyfle i'w dylunio a'u datblygu yn unol â'n dealltwriaeth o wybodaeth am drawma ymarfer. Mae'r Fframwaith Arfer sy'n Ystyriol o Drawma yn darparu carreg allweddol ar gyfer datblygu polisi ac ymarfer pellach yn y maes hwn.

1 Llywodraeth Cymru (2019)
2 Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021)
3 Hyb ACE Cymru (2022)

Goroeswyr sydd wedi'u cloi allan o wasanaethau

Ym mis Awst 2021, cynhyrchodd Hyb ACE Cymru yr 'Uncharted Territory Review'⁴. Roedd hwn yn adfyfrio ar argymhellion adroddiad ymchwil 'Uncharted Territory' 2013 i drais yn erbyn menywod a merched mudol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Nododd adolygiad ôl-weithredol 2021 ei bod yn ymddangos bod argymhellion ynghylch cynorthwyo pobl ag NRPF yn dal i ddisgyn drwy fwllch cyfrifoldeb datganoledig/annatganoledig.' Mae'n mynd yn ei flaen i ddweud bod 'cwestiwn cyllid ar gyfer darpariaeth lloches i fenywod a merched yn broblem mor fawr yn 2013 ag ydyw yn 2021.

Mae'r canfyddiad hwn wedi'i ategu yn yr ymchwil ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr ('A Patchwork of Provision') sy'n dweud wrthym:

'Disgrifiodd goroeswyr mudol sut mae statws cyfreithiol 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' (NRPF) yn golygu bod rhai gwasanaethau wedi'u gwrthod iddynt, neu roedd yr ymateb a dderbyniwyd yn wael.... Roedd gwasanaethau a oedd i fod i ymyrryd ar ran goroeswyr yn aml yn canolbwyntio ar egluro statws mewnfudo cyn yr angen uniongyrchol. Disgrifiodd goroeswyr sefyllfaoedd lle gwrthodwyd cyngor cyfreithiol, llety, cymorth elusennol, gwasanaethau iechyd, cymorth cymdeithasol, budd-daliadau a lloches oherwydd eu statws NRPF. Roedd hyn yn gosod goroeswyr mewn sefyllfaoedd lle, er eu bod wedi dianc rhag y troseddwr, roeddent yn agored i gael eu hecsbloetio a'u cam-drin gan eraill.'⁵

Mae 'Clytwaith o Ddarpariaeth' hefyd yn dweud wrthym:

'Roedd gwasanaethau llety yn arbennig yn ei chael hi'n anodd darparu cymorth i oroeswyr mudol gyda NRPF, ond yr hyn oedd yn arbennig o bryderus oedd y ffaith bod bron i 15% o wasanaethau yn y gymuned wedi dweud na fyddent yn derbyn atgyfeiriad ac yn darparu gwasanaeth llawn i rywun NRPF ar sail eu statws NRPF. O ystyried nad oes gan fynediad at arian cyhoeddus unrhyw ddylanwad ar y gallu i gael cymorth yn y gymuned, mae hyn yn peri cryn bryder.'⁶

4 Hyb ACE Cymru (Awst 2021)

5 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022)

6 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022)

Mae adroddiad cynharach 'Safety Before Status' y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Hydref 2021), yn amlygu ymhellach y broblem benodol ynghylch goroeswyr yn cael fynediad i welyau lloches a mathau eraill o lety diogel, sydd fel arfer yn cael eu hariannu gan fudd-dal tai (gan fod hon yn gronfa gyhoeddus nad yw pobl sydd ag NRPF yn gymwys ar ei chyfer):

'Yn ôl Women's Aid, dim ond 4.0% o'r holl swyddi gwag a bostiwyd ar Llwybrau at Gymorth yn 2019-20 a allai ystyried menywod a oedd ag NRPF. Canfu tystiolaeth o brosiect No Woman Turned Away⁷ Women's Aid hefyd fod gan dros chwarter y merched y gwrthodwyd iddynt fynediad i loches, NRPF, a bu'n rhaid i lawer gysgu allan, syrffio sofffa neu hyd yn oed ddychwelyd at y troseddwr wrth ddisgwyl help.'⁸

Mewn cyd-destun Cymreig, mae'r sefyllfa hon nid yn unig yn niweidio goroeswyr unigol. Mae hefyd yn effeithio ar raglen bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch cydraddoldeb, a'i dyheadau i fod yn Genedl Noddfa. Nodwyd hyn yn glir mewn sesiwn friffio i Grŵp Llywio NRPF VAWDASV yn gynnar yn 2021:

'Mae goroeswyr VAWDASV yn parhau i gael eu cloi allan o wasanaethau cymorth a llety hanfodol, a allai achub bywyd, ar sail eu statws mewnfudo a heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF). Mae hyn yn cael effaith anghymesur ar oroeswyr Du a lleiafrifol hiliol, sy'n golygu, yn ogystal â'r effaith uniongyrchol ar ddiogelwch a llesiant unigolion a theuluoedd, ei fod hefyd yn gyfystyr â gwahaniaethu yn erbyn grŵp o bobl â nodwedd warchoddedig, yn groes i'r darpariaethau gwrth-wahaniaethu a wnaed o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn her i wireddu nodau a dyheadau Cynllun Gweithredu Cenedl Noddfa a Chydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.'⁹

7 Women's Aid (2017)
8 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021)
9 Awduron Lluosog (Chwefror 2021)

Cyfle i wella yng Nghymru

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ei adroddiad 'Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol', gan wneud 15 o argymhellion. Mae argymhelliad 3 yn nodi:

'Mae'r Pwyllgor yn argymhell: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa argyfwng y gall darparwyr gwasanaethau gael mynediad ati i gynorthwyo menywod mudol sy'n ddioddefwyr neu wedi goroesi Trais Rhywiol a Thrais ar Sail Rhywedd a Heb Hawl i Arian Cyhoeddus, gan ddefnyddio strategaeth 'Ending Destitution Together' Llywodraeth yr Alban yn enghraifft. Disgwyliwn y caiff y gwaith hwn ei gyflawni yn y chwe mis nesaf, gyda bwriad i sefydlu cronfa erbyn mis Gorffennaf 2023.'¹⁰

Ym mis Rhagfyr 2022, ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, gan dderbyn (yn rhannol, mewn egwyddor, neu'n llawn) bob un o'i 15 argymhelliad. Derbyniwyd argymhelliad 3 yn llawn, gyda'r manylion canlynol:

'Mae swyddogion wrthi'n cwmpasu opsiynau ar gyfer cronfa a fyddai'n anelu at gynorthwyo dioddefwyr mudol VAWDASV heb hawl i arian cyhoeddus. Mae hyn yn unol â'n Cenedl Noddfa a'n dull gweithredu fel y'i nodwyd yn ein Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd eraill i roi cyllid yn unol ag anghenion poblogaeth Cymru, gan ystyried unrhyw benderfyniadau arfaethedig ynglŷn â dyfodol Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Mudol Llywodraeth y DU. Goblygiadau ariannol - Mae swyddogion wrthi'n cwmpasu goblygiadau ariannol unrhyw gynllun o'r fath'¹¹

Bellach mae cyfle i hybu gwasanaethau presennol drwy fuddsoddiad ychwanegol wedi'i dargedu'n benodol at gynorthwyo goroeswyr VAWDASV sydd â NPRF. Mae cryn bosibilrwydd ar gyfer yr hyn y gallai'r buddsoddiad hwn ei gyflawni, os caiff ei ategu gan feddwl cydlynol ar draws meysydd polisi.

10 Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru (Hydref 2022)

11 Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2022)

Yn eu hadroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r prosiect SEREDA a leolir yng Nghymru, rhoddodd Prifysgol Birmingham a'r Sefydliad Ymchwil i Uwchamrywiaeth grynhoi'r safbwynt hwn yn glir iawn:

'Mae amgylchedd polisi Cymru a natur ddatganoledig polisi iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a thai yn addas ar gyfer datblygu a gweithredu mentrau ar gyfer goroeswyr ar draws sectorau. Trwy adeiladu ar y gwaith presennol ar ariannu gwasanaethau cyhoeddus sydd o fewn ei phwerau datganoledig, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob gwasanaeth yn gallu cynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr waeth beth fo'u statws mewnfudo, er enghraifft, drwy sicrhau bod cyllid ar gael i'r rheini sydd ag NRPF.'¹²

Mae'n hanfodol bod unrhyw fuddsoddiad o'r fath yn cael ei sianelu yn y ffordd fwyaf effeithiol i gynorthwyo'r bobl y mae arnynt ei angen.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio yng nghyd-destun y cyfle ar gyfer buddsoddiad ychwanegol, a'i nod yw cyfeirio at dystiolaeth gadarn a chynngor arbenigol y dylid eu cadw mewn cof wrth i wasanaethau gael eu datblygu a'u comisiynu.

Data: deall pwy mae hyn yn effeithio arnynt, a sut

Prinder data

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael i awgrymu faint o bobl yng Nghymru y mae VAWDASV yn effeithio arnynt ac sydd â NRPF hefyd. Heb ddata manwl, gall fod yn anodd modelu gwasanaethau cymorth effeithiol yn well. Fodd bynnag, fel y bydd yr adroddiad hwn yn mynd yn ei flaen i ddangos, mae corff sylweddol o dystiolaeth ar gael a ddylai fod yn ddigonol i wella gwasanaethau, hyd yn oed heb ddata manylach. Dylid ymgorffori prosesau casglu data gwell wrth i ni wella llwybrau a gwasanaethau yng Nghymru, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg data. Ond ni ddylid gohirio ymyrraeth ar sail bod gennych ddarlun anghyflawn.

Yn 2015, gwnaeth Uned Ddata Llywodraeth Leol ddarn o waith i edrych ar sut mae statws NRPF yn effeithio ar y rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Dim ond 8 o'r 22 awdurdod lleol a ymatebodd ac a gymerodd ran. Mae'r adroddiad yn nodi:

'Roedd y diffyg gwybodaeth fanwl y gellid ei darparu, gan gynnwys data meintiol, yn nodwedd gyffredin ar draws y rhan fwyaf o'r sefydliadau a gymerodd ran, ac eithrio BAWSO¹³. Er bod hyn wedi lleihau manylion ein canfyddiadau, mae'n ganfyddiad allweddol pwysig ynddo'i hun.'¹⁴

Roedd y papur briffio a gyflwynwyd i Grŵp Llywio NRPF VAWDASV yn 2021 yn cyflwyno rhywfaint o ddata diweddar manwl o Gymru yn ystod 2019-21, sy'n dangos bod goroeswyr yn parhau heb gymorth a/neu bod lloches wedi'i wrthod iddynt ar draws Cymru:

'Mae data BAWSO yn dangos bod 76 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi'u cynorthwyo ym mlwyddyn ariannol 2019-20, allan o 164 o ymholiadau am gymorth i oroeswyr gyda NRPF. (46%) ar draws pob BAWSO gwasanaethau yng Nghymru. Ym mlwyddyn ariannol 2020-2021, derbyniwyd 219 o atgyfeiriadau, gyda 98 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth. (45%).

Mae data aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru yn dangos, yn 2020-21, y bu cynnydd o 29% yn nifer y goroeswyr y gwrthodwyd lloches iddynt oherwydd diffyg adnoddau, o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (18, o'u gymharu â 14, yn y drefn honno).¹⁵

13 Mae BAWSO yn cynorthwyo pobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig y mae cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin yn effeithio arnynt, gan gynnwys Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Priodas dan Orfod, Masnachu Pobl a Phuteindra. Eu gwefan yw: <https://bawso.org.uk/en/>

14 Uned Ddata Llywodraeth Leol (Mai 2015)

15 Awduron Lluosog (Chwefror 2021)

Ymchwil mapio diweddar ar draws Cymru a Lloegr

Mae data mwy diweddar ledled Cymru a Lloegr bellach ar gael gan swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig ('A Patchwork of Provision', Tachwedd 2022)¹⁶. Mae'n dangos data ansoddol a meintiol mewn perthynas â rhai o'r meysydd profiad allweddol gan oroeswyr VAWDASV, ac mae ei ganfyddiadau'n adleisio'r data gan BAWSO, ynghylch diffyg gallu i ymateb i'r galw.

Mae 'A Patchwork of Provision' yn dangos gwahaniaethau gwirioneddol ar draws Cymru a Lloegr o ran sut mae sefydliadau'n ymateb i oroeswyr o wahanol grwpiau demograffig. Er enghraifft, gofynnwyd i ddarparwyr gwasanaethau am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer eu gwasanaethau, a sut y byddent yn ymateb i atgyfeiriadau goroeswyr gyda NRPF. Mae'r data'n dangos mai Cymru sydd â'r ganran uchaf o ddarparwyr y mae eu meini prawf cymhwysedd yn cynnwys y rhai sydd ag NRPF (83% ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar lety a 95% ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned).¹⁷

Fodd bynnag, nid yw bod yn gymwys ar gyfer gwasanaeth o reidrwydd yn golygu derbyn un. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddatgan hynny o blith dioddefwyr/goroeswyr yng Nghymru a oedd am dderbyn lle lloches (gan gynnwys y rhai sydd ag NRPF), dim ond 43% a gafodd un mewn gwirionedd. Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'n glir y data a gyflwynwyd i grŵp llywio VAWDASV a NRPF yn 2021 (gyda 45% o unigolion a atgyfeiriwyd mewn gwirionedd yn derbyn gwasanaeth gan BAWSO yn ystod 2020/21). Mae adroddiad y Comisiynydd yn nodi:

Dywedodd tystiolaeth gan ddioddefwyr a goroeswyr lleiafrifol wrthynt eu bod yn ei chael yn arbennig o anodd cael manteisio ar y cymorth yr oedd arnynt ei eisiau. Yn aml, dim ond pan oeddent yn gallu ymgysylltu â sefydliadau 'gan ac ar gyfer'¹⁸ y gallent nodi a chael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae prinder enfawr yn narpariaeth gwasanaethau o'r fath ledled Lloegr ac Cymru, a'r mwyafrif o ddioddefwyr a goroeswyr a oedd am fanteisio ar wasanaethau 'gan ac ar gyfer' yn methu â gwneud hynny.'

Er bod y gwaith mapio o swyddfa'r Comisiynydd yn rhoi cipolwg amserol ar rai materion allweddol, nid yw'n llenwi'r bylchau yn y data ar gyfer y grŵp demograffig penodol hwn mewn ffordd sy'n caniatáu inni ailadrodd darpariaeth gwasanaethau dros amser ledled Cymru, ac asesu a yw'r cynnig cymorth yn gwella.

16 Awduron Lluosog (Chwefror 2021)

17 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022)

18 Er nad oedd 'A Patchwork of Provision' yn ymdrin â goroeswyr sydd ag NRPF yn unig, mae'r ffordd y cynhaliwyd yr ymchwil yn golygu y gellir nodi categori o 'bobl sydd ag NRPF' yn is-set o'r data (ar gael ar fformat wedi'i rannu yn yr adroddiad technegol llawn). Hefyd, gellir distyllu'r data meintiol drwy offeryn rhyngweithiol ar-lein, i ddangos data a nodwyd ar gyfer Cymru yn unig, ac wedyn gellir ei fapio i lawr i ardal heddlu. Felly, mae'n ychwanegiad defnyddiol at y sylfaen lenyddiaeth y gellir ei defnyddio i ddatblygu gwasanaethau yng Nghymru..

Cyfrifo maint yr angen yng Nghymru

Yn hollbwysig, nid oes ffynhonnell ddata ddibynadwy o hyd i'n galluogi i amcangyfrif faint o bobl yng Nghymru a allai fod yn oroeswyr VAWDASV ac sydd â NRPF. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw'r Swyddfa Gartref yn cyhoeddi data ar nifer y ceiswyr lloches sy'n byw heb gymorth, ac nad oes ffordd effeithiol o ganfod y data hwn mewn ffordd arall.

Mae adroddiad gan Wasanaeth Ceiswyr Lloches Anghenus yr Alban ('From Pillar to Post', Ionawr 2019) yn ceisio sefydlu maint yr amddifadedd yn yr Alban gan ddefnyddio ffigurau'r Swyddfa Gartref o 2016, ac olrhain canlyniadau ceisiadau am loches yn y pen draw. Yn seiliedig ar ddata sy'n deillio o ffigurau'r Swyddfa Gartref, daw'r adroddiad i'r casgliad:

'Arhosodd hyd at i 10,688 o bobl o bosibl yn y DU, mewn perygl o amddifadedd pe baent yn anghymwys i gael llety a chymorth lloches, neu'n wynebu rhwystrau rhag manteisio ar y rhain. Er nad yw'r Swyddfa Gartref yn darparu data ar geisiadau a wrthodwyd neu a dynnwyd yn ôl fesul ardal wasgaru, mae data diweddar yn dangos bod tua 10 y cant o geiswyr lloches sy'n cael cymorth adran 95 wedi'u gwasgaru i Glasgow. Byddai hyn yn awgrymu y gallai fod tua 1,000 o bobl y gwrthodwyd lloches iddynt ac sydd mewn perygl o amddifadedd yn yr Alban.'¹⁹

Gellid gwneud cyfrifiad tebyg ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar gyfran yr unigolion a wasgarwyd i Gymru gan y Swyddfa Gartref, yn ystod yr un cyfnod. Byddai'r data'n parhau'n ddamcaniaethol, ond gallai fod yn fan cychwyn i feithrin gwell dealltwriaeth dros amser.

Cymryd gofal wrth gasglu data

Mae sensitifrwydd aruthrol mewn perthynas â chasglu data ar gyfer y grŵp penodol hwn, sy'n cael effaith gynyddol ar y gallu i gasglu'r data eu hunain, gan gynnwys:

- Mae'n bosibl y bydd llawer o'r unigolion sy'n perthyn i'r grŵp demograffig hwn, o'u hanfod, heb unrhyw gysylltiad ag unrhyw fath o wasanaeth cyhoeddus, ac felly heb eu 'cyfrif' mewn unrhyw ymarfer casglu data cyffredinol;
- Mae diffyg canfyddedig (ac weithiau go iawn) o wal dân ddibynadwy rhwng darparu data i ddarparwr gwasanaeth, a rhannu data ymlaen â'r Swyddfa Gartref at ddibenion mewnfudo – effaith y canfyddiad hwn a'r ni ddylid tanfarnu'r ofn y gall ei achosi;
- Gall goroeswyr ofni y bydd y wybodaeth y maent yn ei rhannu yn cael ei defnyddio yn eu herbyn eu hunain a/neu plant gan eraill, nid dim ond er mwyn eu hatal rhag cael caniatâd i aros, a gall y drwgweithredwyr arfogi eu hofn yn rhan o gylchred o gam-drin mewnfudo;

- Pan fydd goroeswr wedi cyrraedd 'drws blaen' gwasanaeth, dylid rhoi'r flaenoriaeth i'w cynorthwyo â'u hanghenion cyflwyno – gallai dechrau casglu data manwl bryd hynny amharu ar y gallu i ymgysylltu â nhw, a'u cefnogi'n gyflym ac yn effeithiol.

Ni ddylai'r diffyg data parhaus achosi oedi wrth gymryd camau i wella'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r data o wasanaethau presennol eisoes yn dweud wrthym fod llai na hanner yr unigolion sy'n ceisio cymorth yn cael eu cynorthwyo o fewn y system bresennol. Felly hyd yn oed heb ystyried meintioli'r angen ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol, rydym yn gwybod nad yw gwasanaethau yn bodloni'r galw sy'n cael ei cyflwyno 'wrth y drysau ffrynt' ar hyn o bryd.

Mynd i'r afael â'r bwch data: buddsoddi yn y system

Os yw buddsoddiad i'w wneud mewn gwasanaethau yng Nghymru ar gyfer goroeswyr VAWDASV gyda NRPF, mae'n gyfle i fynd i'r afael â rhan o'r diffyg data ar yr un pryd.

Dylid nodi bod casglu a dadansoddi data yn rhan hanfodol o unrhyw fanyleb gwasanaeth parhaus ar gyfer gwasanaethau sydd newydd eu comisiynu, fel ein bod yn mynd ati i feithrin dealltwriaeth gynyddol o'r anghenion gwirioneddol a pharhaus ar draws gwasanaethau yng Nghymru.

Fodd bynnag, o ystyried gallu cynyddol darparwyr gwasanaethau i ymateb i ofynion gweithredol, dylid comisiynu rhywfaint o arbenigedd i redeg ochr yn ochr ag unrhyw fuddsoddiad gwasanaeth. Os yw'n cael yr adnoddau priodol, ac yn cael ei gynorthwyo gan yr arbenigedd cywir, byddai'r cyfle gwell hwn i gasglu data yn ein galluogi i ddysgu oddi wrth wasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio, deall beth yw gwir gostau'r ddarpariaeth (gan gynnwys costau seilwaith sefydliadol, rhwydweithio a chyfathrebu) ac ailadrodd darpariaeth gwasanaeth hirdymor effeithiol yn seiliedig ar brofiad gwirioneddol o gyflenwi.

Gall data o'r math hwn fod yn gwbl ddiennw, a gallai gynnwys ystadegau megis:

- Hyd yr amser a dreuliyd mewn llety lloches;
- Manylion llety ymlaen (pa fath o lety, a faint mae'n ei gostio);
- Swm yr arian a ddefnyddiwyd i gynorthwyo'r unigolyn o ffynonellau Llywodraeth Cymru;
- Ffynonellau cyllid eraill sydd ar gael i unigolion ac amseriad cysylltiedig y ffynonellau hynny yn dod ar gael iddynt a pheidio â bod ar gael mwyach;
- Nifer y plant dibynnol sydd gan unigolion, ac unrhyw gostau a/neu incwm cysylltiedig cymhwyster sydd ar gael i'r plant hynny;

- Yr ardal awdurdod lleol lle y cysylltodd pobl gyntaf â gwasanaethau yng Nghymru, ac unrhyw ardaloedd awdurdod lleol eraill sy'n ymwneud â'r achos;
- Unrhyw sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chynorthwyo'r unigolyn, a natur y cymorth hwnnw.

Wrth gwrs, dylai'r holl weithgarwch casglu data gwell hwn ystyried y sensitifrwydd a'r heriau o ran casglu data a amlinellir uchod. Anghenion a lles goroeswyr sy'n ceisio cymorth ddylai fod y flaenoriaeth..

Casglu data mewn gwasanaethau statudol

Er bod buddsoddiad ychwanegol yn gyfle i gasglu data ychwanegol, mae cyfrifoldeb hefyd ar wasanaethau statudol i gasglu data'n well mewn perthynas â'r grŵp demograffig hwn.

Mae Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, o dan y flaenoriaeth 'Unedig a Chysylltiedig', yn cyflwyno cam gweithredu i awdurdodau lleol ddatblygu system gofnodi gyffredin ar gyfer pobl ag NRPF:

"Annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu system gofnodi gyffredin i gasglu data cyson mewn perthynas ag unigolion heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF) er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o effeithiau deddfwriaeth a pholisïau mewn fudo Llywodraeth y DU.²⁰

Drwy adeiladu darlun o amseriad, cyllid, a lleoliad daearyddol o amgylch pob unigolyn a gynorthwyir, gallwn ddechrau deall cyfanswm cost y ddarpariaeth, y bylchau yn y gwasanaethau presennol, a'r ffordd orau o fodelu gwasanaethau gwell i'r dyfodol.

Cyfyngiadau datganoli

Mae'r cyfyngiadau ar fynediad at arian cyhoeddus, gan gynnwys budd-daliadau lles a budd-dal tai, yn bennaf o ganlyniad i bolisi mewnfudo a osodwyd gan Lywodraeth y DU.

Mae Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai dim ond ar lefel Llywodraeth y DU y gall newid polisi sylfaenol ddigwydd, ac na all y Cynllun 'fynd yn groes i reolau deddfwriaethol Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches':

'Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi lloches, sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau am loches, darparu cymorth a llety i geiswyr lloches, a gweithredu cynlluniau adsefydlu ffoaduriaid. Felly, ni ellir datrys llawer o'r heriau a brofir gan y cymunedau hyn yn llawn heb newidiadau polisi gan Lywodraeth y DU.'²¹

Fodd bynnag, mae llwybrau cymorth penodol yn bodoli eisoes yng Nghymru nad ydynt yn mynd yn groes i gyfreithiau mewnfudo'r DU.

Er bod y llwybrau hyn yn bodoli, mae'r canfyddiadau o'r data mewn llenyddiaeth yng Nghymru, a ategwyd gan y sgysiau a lywiodd yr adroddiad hwn, yn dangos bod rhwystrau sylweddol yn parhau rhag manteisio ar wasanaethau. Mae realiti darparu gwasanaethau cymhleth ymhlith gwe o ddeddfwriaeth ryngweithiol, gan groesi meysydd polisi lluosog (rhai datganoledig ac eraill heb eu datganoli), yn golygu bod deall a llywio llwybrau at gymorth yn symlach mewn theori nag yn ymarferol.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd ymlaen i fanylu ar sut olwg sydd ar y llwybr presennol at gymorth yng nghyd-destun deddfwriaethol Cymru Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac yn amlinellu pam y gall rhwystrau rhag cael gafael ar gymorth fodoli ar hyn o bryd.

Llwybr at gymorth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae adroddiad 'Safety Before Status' y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cyflwyno canlyniadau ymarfer mapio a gomisiynwyd gan Ganolfan Angelou, a oedd yn nodi'r llwybrau presennol i gymorth i oroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF, sy'n gysylltiedig â'u statws mewnfudo unigol:

Ffigur 1: Map trosolwg Canolfan Angelou o gymhwysedd yn ymwneud â statws

Statws mewnfudo	Cymhwysedd ar gyfer Cefnogaeth
<p>1. Dim math o ganiatâd i ddod i mewn neu ganiatâd i aros</p> <p>(e.e. unigolyn sydd wedi aros yn hirach na'i fisa neu sydd heb ei ddogfennu).</p>	<p>Gwaherddir NRPF o dan Adran 115 o'r Ddeddf Mewnfudo rhag cyrchu pob math o gymorth gan gynnwys mynediad i waith, tai cymdeithasol, rhentu llety, gofal iechyd ac agor cyfrifon banc.</p> <p>Wedi'i wahardd rhag mynediad i dai o dan rhan VII o'r Ddeddf Tai.</p> <p>Wedi'i eithrio o rai gwasanaethau cymorth a gomisiynwyd (eiriolaeth nad yw'n ymwneud â thai)</p> <p>Mae gan ymfudwyr â phlant hawl i lety a mathau eraill o gymorth gan eu hawdurdod lleol o dan adran 17 o'r Ddeddf Plant</p>
<p>2. Fisa Ymwelydd</p>	<p>Mae gan unigolion sydd â fisa ymwelydd NRPF ac maent wedi'u gwahardd rhag gweithio.</p> <p>Mae gan ymfudwyr â phlant hawl i lety a chymorth arall gan eu hawdurdod lleol o dan Adran 17 o'r Ddeddf Plant.</p>
<p>3. Fisa Myfyriwr</p>	<p>Mae unigolion sydd â fisa myfyriwr NRPF ac mae eu hawl i weithio yn dibynnu ar y cwrs ac oriau gwaith cyflogedig.</p>
<p>4. Fisa Gwaith</p>	<p>Mae gan unigolion sydd â fisa gwaith NRPF. Dim ond os yw'n gallu siarad, darllen, ysgrifennu a deall Saesneg y caniateir y fisa hwn i unigolyn, a bod ei gyflogwr wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref.</p>
<p>5. Llwybr teulu pump a deng mlynedd</p>	<p>Mae gan unigolion sydd â chaniatâd i aros dan reolau bywyd teuluol neu breifat NRPF a'r hawl i weithio.</p>
<p>6. Ceisiwr Lloches</p>	<p>O dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, gellir darparu cymorth ariannol a thai gan y Swyddfa Gartref i berson sy'n ceisio lloches.</p>
<p>7. Ceisiwr Lloches a Wrthodwyd</p>	<p>Mae gan geisiwr lloches a wrthodwyd (hawl apelio wedi disbyddu) NRPF ond efallai y gall wneud cais am gymorth Adran 4 o dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 sy'n cynnwys llety a cherdyn ASPEN rhagdaledig.</p>
<p>8. Fisa Partner Dibynnol</p> <p>(e.e. fisa priod)</p>	<p>Gall unigolyn sydd ar fisa partner wneud cais am ILR (ac felly mynediad at arian cyhoeddus) o dan y Rheol Trais Domestig os yw'n dod i mewn i'r DU fel priod, partner sifil neu bartner dibriod Dinesydd Prydeinig neu gydag ILR, ond bod y berthynas wedi chwalu oherwydd trais domestig.</p>
<p>10. Cynllun Setliad yr UE: Statws Sefydlog</p>	<p>Mae dinasyddion AEE sydd wedi byw yn y DU am bum mlynedd neu fwy (ac sydd wedi cael statws sefydlog) yn gymwys i arian cyhoeddus os ydynt yn preswyllo fel arfer yn y DU.</p>
<p>11. Cynllun Setliad yr UE: Statws Cyn Setliad</p>	<p>Bydd angen i ddinasyddion yr AEE sydd wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd fod â hawl i breswyllo i fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus.</p>

Mae'r mapio'n nodi 'bwlch deddfwriaethol' mewn hawl i'r rhai heb blant (o ystyried y gall awdurdodau lleol yn Lloegr gael cymorth drwy adran 17 o'r Ddeddf Plant) ac ar gyfer yr unigolion hynny nad ydynt yn dod o fewn cwmpas y Ddeddf Gofal. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymchwil ystyried y cyd-destun deddfwriaethol gwahanol yng Nghymru.

Yma yng Nghymru, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion oedolyn am ofal a chymorth, yn amodol ar fodloni amodau penodol (Dyletswydd Adran 35). Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob preswlydd, ni waeth beth fo'i statws mewnffudo.

Mae canllawiau manwl wedi'u cyhoeddi i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, i ailadrodd a chynorthwyo'r safbwynt hwn²² ac mae'n cynnwys cyfeiriad penodol at allu awdurdodau lleol i gynorthwyo darparu llety os yw'n angen a aseswyd. Mae'n nodi:

'Pan na all oedolyn fanteisio ar **fudd-daliadau** a chymorth **tai** oherwydd bod ganddo NRPF, mae'n debygol y bydd angen cymorth arno. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i asesu fel yr amlinellir **yn Adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** pan ymddengys y gallai fod gan oedolyn anghenion gofal a chymorth, a oes ganddo anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys amddiffyn rhag cam-drin. neu esgeulustod, ac os felly beth yw'r anghenion hynny.

Bydd angen i unrhyw asesiad ystyried a mynd i'r afael â'r effaith ar y ddarpariaeth o ofal neu gymorth os nad oes gan berson lety. Er ei bod yn bosibl na fydd unigolyn yn gymwys i gael dyraniad tai cymdeithasol, efallai y bydd cyfle i awdurdod lleol ddarparu llety a ariennir ar sail disgresiwn.

Gall awdurdodau lleol ddarparu cymorth a llety yn uniongyrchol, trefnu i'w ddarparu gan drydydd parti, neu wneud taliadau i oedolion i sicrhau cymorth a llety fel y nodir **yn Adran 34 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**.

Mae'r canllawiau yn ddiweddarach yn cyfeirio'n uniongyrchol at bobl y gallai fod angen cymorth arnynt i gael llety mewn lloches cam-drin domestig:

'Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu llety a chymorth ariannol i oedolyn ag NRPF o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, pan fydd awdurdod lleol wedi asesu bod angen gofal ar rywun a bod amodau 1, 2 a 3 wedi'u bodloni. Mae Adran 35 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio, er enghraifft, at becyn gofal neu le mewn cartref gofal preswyl neu loches cam-drin domestig'

Ategir y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gan ddogfen 'chwalu'r chwedlau', a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru. Ailadroddir testun y ddogfen hon yn llawn, yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'n egluro ymhellach y ffaith fod:

'Mae rhwymedigaeth awdurdod lleol i gynnal asesiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn deillio'n annibynnol o unrhyw ystyriaeth o'r math o statws mewnfudo a all fod gan berson neu deulu.'²³

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn ymdrin â'r ffaith, er nad yw awdurdod lleol o dan ddyletswydd i ddiwallu'r holl anghenion a aseswyd yn ffurfiol, ei fod 'o dan rhwymedigaeth i sicrhau nad yw hawliau dynol unigolyn yn cael eu torri gan fethiant i ddarparu cymorth, neu ddarparu cymorth annigonol'. Mewn rhai achosion, lle mae gwaharddiadau yn berthnasol, efallai y bydd angen i awdurdod lleol gynnal asesiad hawliau dynol, yn ogystal ag asesiad o anghenion. Mae'r canllaw yn nodi:

'Bydd gwaharddiad sy'n seiliedig ar statws mewnfudo person yn berthnasol i rai oedolion nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus ac sy'n gofyn am gymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014....

Pan fo'r oedolyn mewn grŵp sydd wedi'i wahardd, dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol i atal torri hawliau dynol yr oedolyn y gellir darparu cymorth awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â'r asesiad o anghenion, y bydd angen i awdurdod lleol hefyd gynnal asesiad hawliau dynol....

Pan fydd oedolyn mewn grŵp sydd wedi'i wahardd, mae'r awdurdod lleol:

- yn gorfod cynnal asesiad o anghenion gofal cymdeithasol os yw'n ymddangos bod angen
- yn gallu darparu cymorth brys pan fo angen wrth i'r asesiad gofal cymdeithasol a hawliau dynol gael ei gynnal

Pan nad yw oedolyn mewn grŵp sydd wedi'i wahardd, dim ond canlyniad yr asesiad o anghenion gofal cymdeithasol sy'n pennu cymhwysedd ar gyfer cymorth Gwasanaethau Cymdeithasol. Mewn achosion o'r fath ni fydd angen asesiad hawliau dynol.'

Cymorth ymarferol i lywio'r ddeddfwriaeth

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cyhoeddi 'Pecyn Cymorth ar Hawliau Goroeswyr sy'n destun Rheolaeth Mewnfudo'²⁴ sy'n cynorthwyo eu haelodau i lywio'r system gymhleth o gael mynediad at gymorth i'r rhai sydd dan reolaeth fewnfudo.

Mae'n cynnwys canllawiau penodol a llythyrau templed (ar gael i aelodau'n unig) i wneud cais cychwynnol i awdurdod lleol am asesiad o anghenion gofal a chymorth brys, i ariannu llety interim a chymorth ariannol, ac i wneud penderfyniad cadarnhaol i ariannu'r gofal a chymorth anghenion goroeswyr VAWDASV:

- Mae Rhan 1 yn cyflwyno "rheolaeth fewnfudo" sy'n cyfyngu ar fynediad unigolion a theuluoedd at gyllid cyhoeddus penodol. Mae'n egluro beth ydyw, pwy yr effeithir arnynt, a pha arian cyhoeddus y maent wedi'u gwahardd rhag manteisio arno.
- Mae Rhan 2 yn nodi'r llwybrau amrywiol at lety a chymorth sydd ar gael i oroeswyr VAWDASV sy'n destun rheolaeth mewnfudo. Mae'r rhain yn cynnwys: cymorth gwasanaethau cymdeithasol; y Rheol Consesiwn Trais yn y Cartref Amddifadedd a Thrais Domestig; y Dull Atgyfeirio Cenedlaethol (ar gyfer goroeswyr caethwasiaeth modern a masnachu pobl); a Chymorth Lloches y Swyddfa Gartref (ar gyfer ceiswyr lloches a cheiswyr lloches a wrthodwyd).
- Mae Rhan 3 yn cynnwys llythyrau templed [ar gael i aelodau yn unig] at ddiben gwneud cais cychwynnol i'r gwasanaethau cymdeithasol am asesiad o anghenion gofal a chymorth brys; ariannu llety interim a chymorth ariannol; a gwneud penderfyniad cadarnhaol i ariannu anghenion gofal a chymorth goroeswyr VAWDASV.
- Mae Rhan 4 yn cyflwyno'r Prosiect 'Pre-Action Protocol', cynllun sy'n cael ei redeg gan gwmni cyfreithwyr Deighton Pierce Glynn sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen gyda hyfforddiant rhad ac am ddim a goruchwyliaeth barhaus gan gyfreithiwr i'w galluogi i baratoi llythyrau "protocol cyn dwyn achos" ffurfiol i herio penderfyniadau a wneir gan neu ar ran y Llywodraeth (e.e. os yw gwasanaethau cymdeithasol yn gwrthod cynnal asesiad o anghenion).
- Mae Rhan 5 yn cynnwys templed o lythyr at ddiben herio'r Adran Gwaith a Phensiynau ar sail adran 3C o Ddeddf Mewnfudo 1971. Gellir defnyddio'r llythyr hwn os bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn terfynu / bygwth terfynu mynediad goroeswr at fudd-daliadau (a gafwyd drwy'r Consesiwn Trais Domestig Amddifadedd) tra bydd y goroeswr yn dal i aros am benderfyniad y Swyddfa Gartref ar gais am ganiatâd amhenodol i aros.
- Mae Rhan 6 yn cynnwys rhestr o linellau cymorth, gwasanaethau, adnoddau a sefydliadau defnyddiol.
- Mae Rhan 7 yn cynnwys cyfeiriadur sy'n manylu ar opsiynau ariannu gan sefydliadau elusennol a chyrrff dyfarnu grantiau ar gyfer gwasanaethau VAWDASV arbenigol i ddarparu cymorth i oroeswyr gyda NRPF. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol i dalu am renti lloches yn ogystal ag anghenion sylfaenol megis dillad, bwyd a theithio. Rhennir y cyfleoedd ariannu yn gronfeydd ar gyfer unigolion, a chronfeydd ar gyfer sefydliadau.
- Mae Rhan 8 yn cynnwys ymatebion i restr o 'gwestiynau a ofynnir yn aml' a nodwyd yn ystod sgysiau gyda darparwyr arbenigol ac yn ystod sesiynau hyfforddi amrywiol ar y mater o ddiffyg mynediad at arian cyhoeddus.


Pam nad yw pobl yn cael cymorth o hyd?

Mae'r dyfyniadau a gyflwynir uchod o ganllawiau Llywodraeth Cymru yn ddiamwys ynghylch y dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol i asesu angen, o bosibl asesu hawliau dynol, a sicrhau nad yw hawliau dynol unigolyn yn cael eu torri gan fethiant i ddarparu cymorth (neu ddarparu cymorth annigonol).

Fodd bynnag, er gwaethaf y dyletswyddau cyfreithiol hyn, rydym yn gwybod bod pobl sydd wedi goroesi VAWDASV ac sydd ag NRPF yn dal i wynebu rhwystrau sylweddol rhag manteisio ar wasanaethau.

Mae'r amgylchedd ehangach o ddeddfwriaeth, canllawiau, a llenyddiaeth sy'n ymwneud â'r grŵp demograffig penodol hwn yn hynod gymhleth. Mae hyd yn oed canllawiau Llywodraeth Cymru y cymerwyd y dyfyniadau uchod ohonynt dros 50 tudalen A4 o hyd.

Er mwyn cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynediad mewn ffordd gynaliadwy, mae'n bwysig deall pam mae'r rhwystrau'n parhau. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod amgylchedd cyffredinol ar hyn o bryd o 'raddfa uchel o gymhlethdod, risg unigol uchel, amllder achosion isel', ac oni bai bod y cylch hwn yn cael ei dorri, bydd yn anodd creu newid cynaliadwy hirdymor.



Mae ymchwil gan Dai Pawb, 'Lleihau Digartrefedd ymysg Ymfudwyr, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches: Canllaw Arferion Da', yn cynnwys adran lawn ar bobl sydd ag NRPF ac yn nodi:

'Mae angen cynyddu dealltwriaeth o'r rheolau cymhwysedd sy'n effeithio unigolion sydd heb hawl i gyrchu cronfeydd cyhoeddus ymysg y gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys y dyletswyddau sydd arnynt i unigolion sydd heb hawl i gyrchu cronfeydd cyhoeddus dan ddeddfwriaeth digartrefedd ac/neu wasanaethau cymdeithasol. Mae galluogi ymfudwyr i arfer eu hawliau yn golygu bod angen i awdurdodau lleol a phartneriaid ddeall polisi DHCCC a sut y mae'n rhyngweithio â deddfwriaeth Cymru a dyletswyddau'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae diffyg gwybodaeth ac adnoddau AauLI [sic] ac asiantaethau partner mewn perthynas â helpu pobl sydd heb hawl i gyrchu cronfeydd cyhoeddus, gan gynnwys goroeswyr trais ar sail rhywedd a chamdriniaeth ddomestig, yn aml yn golygu y caiff unigolion eu pasio o un gwasanaeth i'r nesaf, gyda'r cymorth yn cael ei gynnig yn hwyr neu ddim o gwbl.'²⁵

Cymhlethdod uchel, risg uchel, amledd isel

Gradd uchel o gymhlethdod

Wrth ystyried y ffordd gywir i gynorthwyo rhywun sydd wedi goroesi VAWDASV ac sydd â NRPF, bydd gweithiwr mewn gwasanaeth yng Nghymru nid yn unig yn meddwl am gymhlethdod cyfreithiau mewn fudo'r DU, ond hefyd fwy na thebyg, am y system budd-daliadau lles (a gymhlethir ymhellach gan y rhyngweithio rhwng pwerau datganoledig ac annatganoledig), deddfwriaeth tai a digartrefedd, polisi a deddfwriaeth gofal cymdeithasol, mynediad at gyngor a chymorth cyfreithiol, ac o bosibl meysydd eraill o bolisi datganoledig a heb ei ddatganoli.

Ni ellir diystyru cymhlethdod yr amgylchedd deddfwriaethol hwn. Mae graddau llawn a'r rhyngweithio rhwng yr holl lenyddiaeth a chanllawiau presennol yn rhy gymhleth ar hyn o bryd i fod yn hygyrch i'r rhan fwyaf o weithwyr anarbenigol ar draws gwasanaethau yng Nghymru. Mae gwasanaethau'n brysur, yn aml gyda chapasiti cyfyngedig iawn a phwysau gweithredol sylweddol. Rhaid i wasanaethau hefyd roi cyfrif am drosiant staff a'r angen i ailhyfforddi ac uwchsgilio gweithwyr newydd; bydd hyn yn arbennig o broblem yn y trydydd sector lle mae swyddi yn aml yn cael eu hariannu gan brosiectau ac yn rhai cyfnod sefydlog eu natur. Mae amser cyfyngedig i fuddsoddi mewn dysgu ac adeiladu gwybodaeth ar feysydd polisi ac ymarfer penodol. Hyd yn oed pe bai, nid oes unrhyw adnoddau hyfforddi a dysgu penodol i Gymru ar gael ar hyn o bryd ac yn hygyrch i uwchsgilio gweithwyr yn y cyd-destun deddfwriaethol penodol ar gyfer goroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF.

Ar hyn o bryd mae diffyg canllawiau hygyrch neu lwybr clir y gall gweithwyr weithredu oddi mewn iddo i gynorthwyo goroeswyr VAWDASV sydd â NRPF. Mae'n debygol iawn mai dryswch ynghylch cymhwyso'r deddfwriaeth yw un o'r ffactorau allweddol sy'n creu rhwystrau i fynediad.

Risg unigol uchel

Ychydig iawn o weithwyr mewn gwasanaethau ledled Cymru sy'n gallu gobeithio deall holl ystod y deddfwriaeth, ac os ydynt yn anghywir, mae'r risg i'r unigolyn y maent yn ceisio ei gynorthwyo yn uchel iawn: os bydd rhywun sydd dan amodau NRPF yn hawlio arian cyhoeddus, byddant yn torri amodau eu caniatâd i aros a gallent fod mewn perygl o gael eu hallgludo.

Mewn system fel hon, efallai y bydd tueddiad i 'drosglwyddo' y defnyddiwr gwasanaeth i rywun yr ystyrir ei fod yn fwy arbenigol, neu hyd yn oed yn syml i rywun a fydd yn ysgwyddo baich y risg os digwyddir digwydd i'r rheolau gael eu torri. Mae'r profiad 'piler i bost' hwn yn niweidiol i bobl sydd eisoes yn profi niwed sylweddol, ac a allai fod wedi dioddef trawma. Nid yw ychwaith yn cyd-fynd o gwbl ag uchelgeisiau Cynllun Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi'r flaenoriaeth ar sicrhau'r canlynol:

'Nad yw ceiswyr lloches yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gynlluniau priodol gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio.'²⁶

Amllder achosion isel

Mae amrywioldeb y data sydd ar gael gan awdurdodau lleol yn awgrymu na allwn fod yn sicr ynghylch maint y galw a gyflwynir. Fodd bynnag, gallwn fod yn siŵr bod y ffigur yn isel iawn mewn perthynas â'r boblogaeth ehangach sy'n ceisio cymorth gan wasanaethau statudol. Mae amllder isel yr achosion hyn yn golygu ei bod yn debygol o fod yn anodd iawn i weithwyr mewn gwasanaethau prif ffrwd ddod yn gyfarwydd â'r corff cymhleth o ddeddfwriaeth, canllawiau, opsiynau cymorth, a chymhwysedd diwylliannol ehangach i allu ymdrin yn effeithiol â'r achosion hyn pan fyddant yn codi.

Mae'n rhaid cydnabod a mynd i'r afael â'r rhyngweithio rhwng cymhlethdod a risg, a waethygir gan amllder cymharol y mathau penodol o achosion hyn o fewn gwasanaethau prif ffrwd, yn rhan o'r broblem, er mwyn llywio atebion ymarferol hirdymor.

Ffigur 2: Y Cydadwaith rhwng Cymhlethdod a Risg, wedi'i waethygu gan Amllder isel

Gymhlethdod	Risg
<p>Mae polisi mewnfudo yn hynod gymhleth, ac yn rhyngweithio â nifer o feysydd polisi eraill.</p> <p>Nid yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn hygyrch nac yn ddealladwy i ddarparwyr gwasanaethau prif ffrwd.</p> <p>Mae mor gynnil fel na ellir ei leihau'n effeithiol i ganiatáu ar gyfer gwell hygyrchedd. Mae hyd yn oed canllawiau distylliedig yn parhau'n rhy hir a chymhleth i weithwyr yn y rhan fwyaf o wasanaethau fynd i'r afael ag ef.</p>	<p>Mae'r risg o 'wneud pethau'n anghywir' i rywun sydd ag NRPF yn uchel iawn.</p> <p>Os bydd rhywun dan amodau NRPF yn hawlio arian cyhoeddus, byddant yn torri amodau eu caniatâd i aros a gallent fod mewn perygl o gael eu hallgludo.</p> <p>Yn ychwanegol at hyn, mae gwasanaethau wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i beidio â chrwydro i diriogaeth 'cynghori' unigolion ar eu hopsiynau mewnfudo, gan mai dim ond cyfreithwyr neu fargyfreithwyr mewnfudo a reoleiddir gan OISC sy'n cael gwneud hynny.</p>
Amllder	
<p>Fel cyfran o gyfanswm nifer yr unigolion sy'n ceisio cymorth ar draws unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol, bydd nifer y bobl sy'n ddioddefwyr VAWDASV ac sydd ag NRPF yn fach iawn.</p> <p>Mewn rhai ardaloedd bydd y nifer hwn hyd yn oed yn llai nag mewn ardaloedd eraill.</p> <p>Felly, mae'r cymhlethdod uchel a'r ffactorau risg uchel yn debygol o gael eu gwaethygu yn sgil y ffaith nad yw'r achosion hyn yn digwydd yn ddigon aml i'r rhan fwyaf o weithwyr unigol adeiladu'r lefel angenrheidiol o wybodaeth dechnegol.</p>	

Sefydlu llwybr clir

Un o'r ffyrdd amlycaf o gynorthwyo'r grŵp demograffig hwn fyddai creu llwybr canolog ar gyfer cymorth sy'n berthnasol i Gymru gyfan ni waeth beth fo'r amrywiad lleol. Dylai fod wedi'i gyflwyno'n weledol, yn glir, yn syml, ac yn arwydd o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau cyfreithiol a roddir ar asiantaethau statudol.

Mae adroddiad 'Safety Before Status' y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn nodi'r canlynol:

'Yn aml nid oes gan asiantaethau wybodaeth glir am y gwahaniaethau rhwng mathau o statws mewnfudo, llwybrau mewnfudo a hawliau i eiriolaeth a chymorth cyfreithiol. Cynhaliodd Canolfan Angelou gymhariaeth pen desg o 12 ardal awdurdod lleol a chanfod nad oedd gan yr un ohonynt strategaeth NRPF na llwybr cytunedig ar gyfer y grŵp hwn. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth o 2020 nad oedd mwy na 40 y cant o wefannau awdurdodau lleol yn cynnwys unrhyw wybodaeth o gwbl am NRPF. Yn eu hymchwil i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, disgrifiodd Canolfan Angelou lawer o'r achosion hyn yn 'achosion drws cylchdroi' a oedd yn ymwneud â galwadau argyfwng dro ar ôl tro i asiantaethau statudol megis yr heddlu a gofal cymdeithasol oedolion, gan nodi bod mwy o ymwybyddiaeth o lwybrau at gymorth ar gyfer byddai dioddefwyr a goroeswyr yn lleihau beichiau ar wasanaethau cyhoeddus ac yn galluogi dioddefwyr a goroeswyr i gael mwy o sefydlogrwydd.'²⁷

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i Grŵp Llywio NRPF VAWDASV yn 2021 yn nodi y gallai dioddefwyr VAWDASV sydd ag NRPF yma yng Nghymru gael ymatebion niweidiol a negyddol ar hyn o bryd ar ddechrau eu cysylltiad â gwasanaethau.

'Mewn rhai achosion, gwneir 'asesiad cyfrannol', wedi'i lywio gan ymchwiliad anffurfiol yn seiliedig ar un y person a/neu gynorthwyo dealltwriaeth sefydliadau o statws mewnfudo a mynediad at wasanaethau, heb wirio a yw'r rhain yn gywir. Mae gan lawer o ymarferwyr ddiffyg gwybodaeth am bolisi mewnfudo / statws, ac felly cymhwyster person i gael gwasanaethau. Ar y cyd â'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ryngwyneb deddfwriaeth ymfudo a lles, gall hyn arwain at arferion gwael ac mewn rhai achosion, torri Hawliau Dynol person.'

Er bod achos pob unigolyn yn debygol o fod yn gymhleth iawn, ac wrth gwrs bydd angen ymgysylltu manwl yn y pen draw o ran asesu eu statws a darparu cymorth pwrpasol, ni ddylai hyn fod yn ystyriaeth gyntaf pan fydd rhywun yn dod at 'ddrws ffrynt' gwasanaeth i geisio cymorth.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn glir iawn ynglŷn â hyn, ac mae union deitl adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig ('Safety before Status') yn ein hatgoffa mai dim ond ystyried sut i ddarparu man diogel yw'r ymateb cyntaf.

Gallai darparu un llwybr clir i gyfeirio'r ymateb 'pen blaen' uniongyrchol i gais am gymorth sy'n dod i mewn, helpu i wneud dyletswyddau cyfreithiol yn gliriach ar gyfer gweithwyr rheng flaen.


Gellid llunio llwybr ar ei ffurf gyntaf yn weddol gyflym gan dîm canolog bychan yn gweithio gyda grŵp o arbenigwyr yn y maes. Yna gellid ei brofi gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, ei weithredu, a'i ddatblygu'n ailadroddol dros amser.

Byddai'n galluogi gweithwyr i dorri drwy gymhlethdod y canllawiau, gan leihau elfennau allweddol i fformat gweledol, ond yn ei gynorthwyo gyda chyfeiriadau a dolenni at y testun ehangach.

Byddai angen i lwybr o'r fath gael ei gyfathrebu'n glir ac yn rhagweithiol iawn er mwyn sicrhau bod gweithwyr rheng flaen yn ymwybodol o'i fodolaeth, er mwyn iddo greu effaith diriaethol.

Gallai'r ychydig gamau cyntaf mewn llwybr o'r fath fod yn debyg i'r diagram yn Ffigur 3, isod. Darperir hwn fel enghraifft yn unig - dylid cyd-greu'r llwybr gyda mewnbwn arbenigol. Mae'r llwybr drafft enghreifftiol wedi'i eirio ar gyfer cynulleidfa awdurdod lleol, ac efallai y bydd angen ceisio geiriad arall i ddenu cynulleidfa ehangach.

Ffigur 3: Llwybr darluniadol, drafft, 'pen blaen'



Canoli'r arbenigedd: datgloi'r cylch

Er y gallai llwybr clir wedi'i gyflwyno'n weledol gynorthwyo gwasanaethau prif ffrwd yn fwy effeithiol, mae'r cymhlethdod sydd y tu ôl i ddatganiadau yn y llwybr megis 'os yw gwaharddiadau'n berthnasol yn debygol o olygu bod ansicrwydd yn dal i godi i weithwyr ledled Cymru.

Efallai mai un o'r ffyrdd o ddatgloi'r cylch 'cymhlethdod uchel, risg uchel, amllder isel' fyddai darparu arbenigedd canolog, i gynorthwyo gwasanaethau prif ffrwd i lywio eu ffordd drwy'r system.

Gellid sefydlu tîm bach i gyflawni'r swyddogaeth hon, gan gynorthwyo pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a'r rhwydwaith o sefydliadau eraill sy'n cynorthwyo pobl sy'n goroesi VAWDASV ac sydd â NRPF.

Gallai tîm o'r fath ddod yn gyfarwydd iawn â'r ddeddfwriaeth ddatganoledig ac annatganoledigi, y cyd-destun polisi yng Nghymru, a'r sylfaen dystiolaeth o ran arfer gorau ar gyfer darparu cymorth i bobl sydd ag NRPF. Gallai'r tîm hefyd gael ei hyfforddi i lefel uchel o gymhwysedd mewn ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.

Ni fyddai'r ateb hwn yn neidio heibio i'r ddarpariaeth prif ffrwd bresennol nac yn diystyru'r cyd-destun deddfwriaethol a'r dyletswyddau cysylltiedig sy'n gynhenid i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn lle hynny, gallai'r tîm weithio'n ailadroddol gyda sefydliadau ledled Cymru, gan adeiladu eu gallu dros amser trwy ryngweithio rheolaidd sy'n galluogi, yn grymuso ac yn arwain. Gallent ddefnyddio eu harbenigedd i lunio adnoddau hyfforddi, a defnyddio mewnbyn cyfathrebu arbenigol i ddsbarthu'r adnoddau hynny mewn ffordd ystyrlon a deniadol i weithwyr ledled Cymru.

Gallai cylch gorchwyl tîm canolog gynnwys:

- Darparu gwasanaeth ymatebol uniongyrchol i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yng Nghymru sydd â chyswllt cyntaf gan rywun sydd wedi goroesi VAWDASV ac sydd â NRPF (llinell ffôn benodol a blwch post e-bost neu wefan ddiogel), i ddarparu'r canlynol:
 - Cadarnhad o'r llwybr i'w ddilyn yn unol ag arfer gorau;
 - Canllawiau ar sut i gynnal y camau yn y llwybr, gan gynnwys ateb ymholiadau sy'n benodol i'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach;
 - Darparu dogfennaeth (er enghraifft, dolenni at ganllawiau Llywodraeth Cymru a Phecyn Cymorth Cymorth i Ferched Cymru);
 - Rhifau cyswllt ar gyfer darparwyr gwasanaeth 'wrth-ac-ar-gyfer' arbenigol neu arbenigwyr eraill i gynorthwyo a llywio'r broses asesu a/neu ddarparu llwybrau cymorth;
- Argymhellion rhagweithiol ar ystyriaethau allweddol ac arfer da wrth gynorthwyo pobl o'r grŵp demograffig hwn, er enghraifft:
 - Ystyried anghenion ieithyddol a defnydd o gyfieithydd;
 - Gwybod beth yw 'camdriniaeth mewnfudo', a sut y gallai ddod i'r amlwg;

- Deall pryd y gallai fod angen Asesiad Hawliau Dynol, a sut i gynnal un;
- Gwybod y gwahanol wasanaethau a allai fod yn gynorthwyol, gan gynnwys dyfynnu'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol.
- Cyd-gynhyrchu adnoddau hyfforddi, gyda dealltwriaeth glir o ddeilliannau dysgu, ar gyfer gweithwyr ledled Cymru. Gellid cynllunio'r rhain i gwmpasu hanfodion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau, ac i atgoffa gweithwyr sut y gallant gael gafael ar ragor o gymorth a chynghor. Efallai y byddant wedi'u haenu yn dibynnu ar angen y gynulleidfa, fel bod gweithwyr rheng flaen prif ffrwd yn cael set wahanol o adnoddau hyfforddi i weithwyr mewn sefydliadau arbenigol sy'n fwy tebygol o fod yn gweithio gyda goroeswyr VAWDASV a/neu sydd â NRPF;
- Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, i uwchsgilio timau ar sut i ymateb yn effeithiol i unigolion sy'n goroesi VAWDASV ac sydd â NRPF;
- Casglu data dienw lefel uchel (faint o alwadau neu e-byst a dderbynnir, o ba ardaloedd awdurdod lleol ledled Cymru, beth oedd natur yr ymholiad, a gwybodaeth sylfaenol arall i gynorthwyo dealltwriaeth o waith y tîm dros amser) a all helpu i adeiladu gwell darlun o lefelau angen a galw ledled Cymru.

Cymhwysedd ar gyfer arian cyhoeddus: Llywio'r system

Fel yr amlinellwyd uchod, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i asesu (ac mewn achosion sy'n ymwneud â diogelu hawliau dynol) i ddarparu cymorth i bobl yn y grŵp demograffig hwn.

Fodd bynnag, yn ogystal â'r ffynhonnell hon o gymorth, gall fod llawer o achosion lle mae unigolyn yn gymwys i gael cymorth a/neu gyllid o ffynhonnell Llywodraeth y DU, ond nid yw hyn wedi'i benderfynu eto ar yr adeg y maent yn dechrau ymgysylltu â gwasanaethau yng Nghymru.

Mae adroddiad 'Safety before Status' y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn awgrymu bod cyfran uchel o achosion unigol a atgyfeiriwyd at wasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol mewn gwirionedd yn gymwys i gael rhywfaint o gymorth:

Mae tystiolaeth gan Ganolfan Angelou yn dangos y dylai 70% o ddioddefwyr a goroeswyr a gyfeiriwyd fel 'NRPF' i'w gwasanaethau VAWG a Llinell Gymorth yn 2020-21 gael mynediad at naill ai budd-daliadau neu arian cyhoeddus arall.²⁸

Er y gallai ffynonellau cymorth ariannol presennol fod ar gael i rywun, mae'r system mor gymhleth fel y bydd angen cymorth ar bobl yn bennaf i'w llywio. Wedyn bydd oedi rhwng gwneud ceisiadau am gyllid, gweithio drwy'r system i'r pwynt cadarnhau cymhwysedd, a derbyn unrhyw gyllid neu gymorth a ddyrannwyd. Mae adroddiad dilynol y Comisiynydd (Safety Before Status: The Solutions) yn dweud wrthym:

'Bod llawer o ddiodefwyr ymfudol yn cael eu hatgyfeirio at nifer o wasanaethau cyn y gallant gael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt. Gall hyn fod oherwydd diffyg dealltwriaeth o hawliau dioddefwyr ymfudol ymhlith goroeswyr a gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Yn ogystal, mae gwasanaethau cam-drin domestig yn dweud wrth y Comisiynydd bod llawer o ddiodefwyr ymfudol yn wynebu arosiad ychwanegol am gymorth wrth wneud cais drwy'r DDVC, oherwydd yr oedi wrth brosesu eu cais, yn ogystal ag anawsterau wrth wneud ceisiadau am fudd-daliadau gan ddefnyddio llythyr gan y Swyddfa Gartref i gadarnhau eu statws.²⁹

Mae 'Safety Before Status' yn argymhell yn glir: 'Dylid...dyrannu cyllid penodol ar gyfer cyngor cyfreithiol fel y gellir cynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i reoleiddio eu statws.'³⁰

Yn y papur briffio i'r Grŵp Llywio VAWDASV a'r NRPf (Hydref 2021) nodir, os yw unigolyn yn cael cymorth gyda chyngor effeithiol, efallai y bydd amrywiaeth o lwybrau eraill at gymorth ariannol ar gael iddo:

'Mae data Rhwydwaith NRPf yn dangos y bydd y mwyafrif helaeth o deuluoedd ac oedolion sengl yn gadael cymorth gwasanaethau cymdeithasol oherwydd caniatâd i aros neu newid mewn statws mewn fudo sy'n caniatáu mynediad at gyllid cyhoeddus.'³¹

Pa mor effeithiol bynnag y gallai fod, mae cyngor cyfreithiol yn ddrud os bydd angen i unigolyn dalu amdano yn y man darparu, ac mae'n anodd iawn dod o hyd i gyngor cyfreithiol am ddim oherwydd prinder darpariaeth cymorth cyfreithiol ledled Cymru.

Mae'r graddau y mae'r angen am gymorth cyfreithiol yn fwy na'r cyflenwad yng Nghymru, wedi'i ddogfennu'n glir mewn ymchwil ddiweddar a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru: 'Integreiddio: ymchwil ar wasanaeth cyngor cyfreithiol mewn fud'³². Mae'r data yn dangos mai dim ond tua 1/3 angen cymwys a ddiwellir ar hyn o bryd.

Ond er nad yw cymorth cyfreithiol yn cael ei ddsbarthu ar ffurf cronfa gyhoeddus at ddibenion mewn fudo, dim ond ar gyfer rhai mathau o achosion y mae ar gael, ac ychydig iawn o faterion mewn fudo, sy'n golygu na fydd llawer o bobl sydd ar incwm isel yn gallu manteisio ar gyngor cyfreithiol rhad ac am ddim.³³ Felly, hyd yn oed pe bai rhagor o gymorth cyfreithiol ar gael yng

29 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Rhagfyr 2022)

30 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (2021)

31 Adroddiad data NRPf Connect 2020 i 2021 | NRPf (nrpfnetwork.org.uk)

32 Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023)

33 Canllawiau rhwydwaith yr NRPf ar gymorth cyfreithiol. Ar gael yn: <https://www.nrpfnetwork.org.uk/information-and-resources/rights-and-entitlements/legal-aid/what-is-covered-by-legal-aid#guide-sections>

Nghymru, mae'n annhebygol o ddiwallu'r holl anghenion sy'n codi ar gyfer y grŵp penodol hwn o bobl.

Mae cyngor a chymorth cyfreithiol rheoleddig yn amlwg yn bwysig i symud achosion unigol ymlaen a cheisio rheoleiddio statws mewnfudo. Mae gwasanaethau cynghori o fewn cwmpas pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, felly mae cyfle i gynnwys y rhain mewn llwybr gwasanaeth ar gyfer goroeswyr VAWDASV gyda NRPF.

Dylai fynediad at gyngor o ansawdd da gan ffynonellau sydd wedi'u cymhwyso a'u rheoleiddio fod yn elfen hanfodol o unrhyw wasanaeth a gomisiynir ar gyfer goroeswyr VAWDASV gyda NRPF yng Nghymru.

Ar wahân i ddarparu canlyniadau unigol gwell, mae ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun yn nodi bod darparu cyngor cyfreithiol i bobl sydd ag NRPF yn debygol o roi budd ariannol net cadarnhaol i wasanaethau statudol:

'Nid yw'r data'n bodoli i ddangos yn union faint o bobl sydd ag NRPF, na beth mae'n ei gostio i gynorthwyo'r rhai heb fynediad at arian cyhoeddus sy'n gymwys i gael cymorth llety a chynhaliath. Fodd bynnag, mae costau hyd yn oed y cymorth sylfaenol iawn hwn ar gyfartaledd £10-12,000 y teulu y flwyddyn, sy'n golygu ei bod yn debygol o fod yn sylweddol rattach ariannu cyngor cyfreithiol na chynorthwyo hyd yn oed hanner dwsin o deuluoedd.

Mae diffyg ymwybyddiaeth hefyd o'r posibilrwydd o wneud cais i ddileu'r amod NRPF, heb sôn am fynediad at gyngor a gwaith achos ar gyfer cais o'r fath. O'r herwydd, byddai'n ddefnyddiol i grwpiau o awdurdodau lleol dreialu cyllid neu gomisiynu cyngor cyfreithiol cyn gynted â phosibl a chyfrifo'r arbedion i'r gwrthwyneb, yn seiliedig ar y rhai y maent yn eu cynorthwyo yn y cyfnod peilot, yn hytrach nag aros am ddata ar arbedion posibl cyn gweithredu.³⁴

Dylai buddsoddiad ychwanegol mewn llwybr gwasanaeth yng Nghymru ar gyfer goroeswyr VAWDASW sydd ag NRPF felly geisio cynnwys darparu adnodd cynghori a chyfreithiol pwrpasol, yn gysylltiedig â thîm canolog yr NRPF. Trwy ganoli'r adnodd a chadw trosolwg manwl o'r modd y mae'n cael ei ddefnyddio, gellir monitro a gwerthuso ei effeithiolrwydd mewn perthynas â symud achosion unigol yn eu blaenau, ac efallai y bydd modd dadansoddi'r gost/budd yn fanylach. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer ailadrodd y llwybr gwasanaeth ymhellach i'r dyfodol.

Uniongyrchedd cymorth: Cronfa ganolog

Mae'n hanfodol bod goroeswyr VAWDASV gyda NRPF yn cael ffynhonnell gymorth ar unwaith wrth iddynt gael mynediad at gyngor. Mae ymchwil gan Brifysgol Suffolk yn nodi:

'Efallai y bydd angen cymorth hyblyg neu interim y tu hwnt i'r ddarpariaeth statudol bresennol ar geiswyr lloches a dioddefwyr masnachu mewn pobl. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i Adolygiad Dioddefwyr Ymfudol y Swyddfa Gartref yn adlewyrchu cymhlethdod achosion lloches a masnachu mewn pobl, a'r angen am gymorth interim o'r pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaeth wrth iddynt gael cyngor cyfreithiol a dilyn llwybrau mwy sefydlog at gymorth.'³⁵

Yn 2022, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig 'Safety Before Status: The Solutions', sy'n canolbwyntio ar rai atebion ymarferol a awgrymwyd i fynd i'r afael â'r diffygion yn y system bresennol³⁶. Ynddo, mae'r Comisiynydd yn cynghori'n glir y dylai unrhyw fodel cymorth sydd newydd ei ddatblygu gynnwys argaeledd cymorth ar unwaith a weinyddir yn gyflym. Er y byddai angen i'r Swyddfa Gartref ac adrannau ehangach o Lywodraeth y DU weithredu ar elfennau allweddol o'r modelau a gyflwynwyd yn adroddiad y Comisiynydd, mae rhai o'r canfyddiadau a'r egwyddorion yn berthnasol i lywio buddsoddiad yn y cyd-destun datganoledig yng Nghymru.

Mae'r adroddiad 'Atebion' yn awgrymu'n benodol fodel lle mae uniongyrchedd cymorth yn cael ei amlygu (y 'Cyfnod Asesu Brys') ac yn cael ei ddilyn gan gyfnod 'Mynediad at Wasanaethau Arbenigol':

Cyfnod Asesu Brys

'Mae goroeswyr, ni waeth beth fo'u statws mewnfudo, yn eu hatgyfeirio eu hunain (neu'n cael eu hatgyfeirio gan wasanaethau) at lwybr cymorth cam-drin domestig. Mae uchafswm cyfnod o 72 awr i gadarnhau eu bod yn gymwys i gael cymorth.'

- Yng Nghymru, gallai'r model hwn o gyfeirio at lwybr seagl clir, a newid am gyfnod cyfyngedig o amser ar gyfer cwblhau ystod o geisiadau i ddechrau'r broses o bennu cymhwysedd ar gyfer ffynonellau cyllid eraill, helpu i liniaru effaith niweidiol 'dryswch/risg/amledd' amgylchedd a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn;
- Mewn model sy'n seiliedig ar Gymru, gallai'r cam hwn gynnwys cais ar unwaith i'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer asesiad anghenion gofal a chymorth brys, ac o bosibl, cymorth gan dîm canolog NRPF, i'r awdurdod lleol dan sylw, i gynnal yr asesiad;
- Yn ystod y cyfnod hwn, dylai fod cyllid ar gael o gronfa ganolog i sicrhau bod yr unigolyn sy'n ymdrechu i fanteisio ar wasanaethau yn ddiogel

35 Adisa, O. & Allen K (Mehefin 2021)

36 Y Comisiynydd Cam-drin Domestig (Rhagfyr 2022). Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ymchwil a gomisiynydd gan y London School of Economics, mewn partneriaeth ag Arsyllfa Ymfudo Rhydychen rhwng Ionawr a Mehefin 2022, wedi'i hategu gan ddiwyddiadau bord gron a gynhaliwyd gan y Comisiynydd

Cyfnod Mynediad i Wasanaethau Arbenigol

- Yng Nghymru, efallai mai hwn yw'r cyfnod pan allai gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' manteisio ar gyllid ychwanegol i gynorthwyo unigolion yr ymddengys fel arall na allant gael cymorth drwy eu hawdurdod lleol, neu sy'n aros am ganlyniad ffynonellau cyllid neu gymorth amgen.
- Mae'r adroddiad 'Atebion' yn awgrymu y dylid darparu'r cyfnod hwn am hyd at 6 mis ni waeth beth fo'r statws ymfudo, ac eithrio ar gyfer grwpiau ymwelwyr a myfyrwyr a fydd ar gyfartaledd â mynediad am hyd at 1 mis gyda'r opsiwn i ymestyn yn ôl yr angen (y disgwyl yw y byddai ar ymwelwyr a myfyrwyr, yn arhoswyr dros dro, angen cyfnod cymorth byrrach yn ôl pob tebyg nag ymfudwyr rheolaidd a rhai heb ddogfennu).

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi derbyn Argymhelliad 3 o adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, ac mae'n cwmpasu opsiynau ar gyfer cronfa a fyddai'n anelu at gynorthwyo goroeswyr VAWDASV gyda NRPF. Yn y cyd-destun hwn, mae cyfle i enwi cronfa argyfwng o'r fath o fewn model cymorth sydd wedi'i fynegi'n glir, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru gasglu rhanddeiliaid o amgylch y llwybrau model a gyflwynir yn yr adroddiad 'Atebion', ynghyd â'r llwybr 'pen blaen' enghreifftiol a gyflwynir uchod yn Ffigur 3, i greu llwybr amlinellol. Ni ddylai'r ymarfer hwn geisio perffeithrwydd, ond yn hytrach dylai gytuno ar lwybr y gellir ei ailadrodd dros amser. Ni ddylai hyn oedi buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth i oroeswyr.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd ymlaen i amlinellu'r hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud wrthym am y gwasanaethau y mae goroeswyr VAWDASV yn eu ceisio a'u gwerthfawrogi fwyaf gyda NRPF. Mae'n amlygu'n arbennig bwysigrwydd gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer', ac yn ystyried sut y gellid cryfhau'r gwasanaethau hyn i ddarparu cymorth cynaliadwy hirdymor i'r dyfodol.

Gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol

Mae adroddiad 'A Patchwork of Provision' y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn nodi'n glir:

'Bod y rhan fwyaf o ddioddefwyr a goroeswyr o gymunedau lleiafrifol am gael cymorth a ddarperir 'gan ac ar gyfer' eu cymuned eu hunain. Mae hyn oherwydd bod sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn gallu deall yn well y cyd-destun a chymhlethdod y gamdriniaeth a wynebwr gan oroeswyr mân, ac adeiladu'r ymddiriedolaeth sy'n hanfodol i asesu risg yn effeithiol a darparu'r cymorth cywir.'³⁷

Mae 'Safety before Status' yn manylu ar yr elfennau a ddarperir gan lawer o wasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer'. Mae'r rhain yn werthfawr iawn nid yn unig i'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ond hefyd i'r grŵp ehangach o randdeiliaid y mae eu harfer yn cael ei ddatblygu a'u gallu wedi'i adeiladu gan eu harbenigedd. Mae'r rhain i gyd yn elfennau y gellid eu cynnwys mewn manylebau gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau effeithiol yma yng Nghymru, i'r dyfodol.

Gallai elfennau o'r ddarpariaeth gynnwys:

- **Eiriolaeth groestoriadol**

Cymorth eiriolaeth groestoriadol amlieithog, sy'n ystyriol o drawma, sy'n aml yn fwy hirdymor ac sy'n herio gwahaniaethu ar lefel sefydliadol fel mater o drefn. Mae hyn yn cynnwys arbenigedd mewn nodi ac ymateb i arferion niweidiol a cham-drin mewnfudo, cyfrannu at asesiadau cadarn o risg cyd-destunol, a sicrhau bod dioddefwyr-goroeswyr ymfudol yn cael cyngor annibynnol ac arbenigol ar fewnfudo.

- **Cymorth therapiwtig**

Darparu gwasanaethau therapiwtig unigol a grŵp priodol sydd yn aml yn cynnwys arbenigedd cynhenid o wahaniaethau crefyddol, diwylliannol a chymunedol o fewn fframwaith hawliau dynol. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyflogi therapyddion Du a lleiafrifol amlieithog sydd â dealltwriaeth wreiddiedig o'r rhwystrau penodol a osodir³⁷ y mae dioddefwyr-goroeswyr du a lleiafrifol yn eu profi wrth gyrchu cymorth iechyd meddwl yn ogystal â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG).

- **Cymorth cyfreithiol**

Mae'r sector Du a lleiafrifol arbenigol a arweinir gan ac ar gyfer y sector VAWG yn ariannu cymorth cyfreithiol yn rheolaidd i ddioddefwyr-goroeswyr pan fo angen. Mae adnoddau eraill yn cynnwys gweithredu'n ffrind McKenzie yn y llys, cynorthwyo gyda gwaharddebau DIY neu gynorthwyo menywod i gynhyrchu gwaith papur cyfreithiol gan gynnwys datganiadau tystion ac Atodlenni Scott.

Bydd gwasanaethau arbenigol yn aml yn darparu'r cymorth hwn mewn cydweithrediad ag elusennau cyfreithiol ac eiriolaeth gyfreithiol pro-bono.

- **Llety lloches**

Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cymorth arbenigol i fenywod a phlant gyda NRPF, gan ddarparu llety a chymorth ariannol tra bydd eu statws mewnfudo yn cael ei reoleiddio. Pan

fydd menywod a phlant yn gadael darpariaeth lloches yn y sector, maent yn parhau i gael cymorth symud ymlaen dwys. Mae llawer o'r llochesau hyn yn darparu'r cymorth hwn heb gyllid na chymorth digonol a chyda'r bygythiad parhaus o gau.

- **Hyfforddiant aml-sector a meithrin gallu**

Mae mwy a mwy o alw ar wasanaethau VAWG arbenigol i ddarparu hyfforddiant, cyngor, arweiniad a chymorth meithrin gallu i asiantaethau aml-sector. Gwneir hyn yn aml a gofynnir amdano heb ymrwymiad i ariannu'r gwasanaethau hyn. Yr holl sefydliadau arbenigol a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn oedd y prif wasanaeth atgyfeirio ar gyfer cyngor ac arweiniad ar faterion NRPF yn eu hardaloedd lleol. Rhestrwyd llawer o sefydliadau gan awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn er nad oeddent yn cael unrhyw gyllid gan awdurdodau lleol.

- **Grwpiau lles**

Sy'n gweithio i ddiwallu anghenion economaidd-gymdeithasol dioddefwyr a goroeswyr, yn enwedig y rhai sydd ag NRPF, megis trwy fanciau lles sy'n ddiwylliannol briodol, pryd ar glud, a banciau technoleg.

- **Cymorth magu plant ac eiriolaeth plant**

Mae enghreifftiau yn cynnwys darpariaethau KIDVA (Eiriolaeth Plant) a rhaglenni adfer magu plant. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun niferoedd cynyddol y plant sy'n cael eu symud oddi wrth famau mudol a gofalwyr ar y sail bod ganddynt NRPF, yn ogystal â gwrthod cymorth adran 17 yn aml. Yn ogystal, mae llawer o wasanaethau arbenigol yn darparu gwasanaethau meithrinfa amlieithog ar y safle i alluogi mamau i ddefnyddio gwasanaethau.

- **Hyfforddiant a datblygiad a gweithgareddau cynhwysiant**

Yn sefydliadau cymunedol, mae llawer o wasanaethau yn darparu ac yn darparu hyfforddiant a chymorth cyflogadwyedd gan gynnwys hyfforddiant achrededig i fenywod sydd ag NRPF.

- **Lleisiau merched a rhwydweithiau goroeswyr**

Mae sefydliadau VAWG Du a lleiafrifol arbenigol yn parhau i ganoli profiadau bywyd dioddefwyr-goroeswyr Du a lleiafrifol trwy grwpiau llywio rheolaidd, ymgynghoriadau, gwerthusiadau, cymorth eiriolaeth fesul un, rhwydweithiau cymdeithasol, a sesiynau mynegiannol.

Yng Nghymru, mae BAWSO yn darparu gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol, ac ar hyn o bryd cânt eu hariannu i ddarparu'r cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Ymfudol (SMV), mewn partneriaeth â Southall Black Sisters, a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref ac a estynnwyd yn ddiweddar i fis Mawrth 2025.³⁸

Mae gan y cynllun SMV nifer o gyfyngiadau, gan gynnwys terfyn o 12 wythnos ar lety diogel i oroeswyr VASDASV sy'n amddifad ac sydd â NRPF. Mae'r cynllun yn rhoi blaenoriaeth i oroeswyr nad oes ganddynt lwybr sefydledig i setlo ar hyn o bryd er y bydd cymorth pontio ar gael dan rai amgylchiadau eithriadol i'r rhai sydd fel arall yn gymwys ar gyfer consesiwn DDVC, cymorth lloches, awdurdod lleol neu gymorth gwladwriaethol arall'.

Mae'n amlwg felly fod bwlch yn y ddarpariaeth o hyd, er gwaethaf y cymorth a gynigir gan y cynllun SMV.

38 Ceir manylion y cynllun SMV drwy Southall Black Sisters yn: <https://southallblacksisters.org.uk/our-services/sbs-no-recourse-fund/smv-scheme/>

Cynaliadwyedd tymor hwy: Buddsoddi mewn newid systemig

Yng Nghymru, mae buddsoddiad ychwanegol i'w groesawu wedi'i wneud ar gyfer 2023/24 gan Lywodraeth Cymru, a thrwy hynny bydd BAWSO yn gallu cau rhai o'r bylchau a adawyd gan y cynllun SMV. Fodd bynnag, ni fydd buddsoddiad untro y tu allan i strategaeth a llwybr clir ar gyfer cynorthwyo goroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF yn ddigon i fynd i'r afael â'r problemau presennol yn y system.

Er gwaethaf y ffaith bod gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol mewn sefyllfa mor dda i gynorthwyo goroeswyr mudol VAWDASV, maent yn wynebu heriau sylweddol o ran gallu gwneud hynny, gan gynnwys:

- Diffyg cynhwysedd i fodloni'r galw sy'n dod i mewn, yn enwedig o ran manau lloches sy'n briodol yn ddiwylliannol ac mewn lleoliadau daearyddol da;
- Cyllid tymor byr, sy'n gwrthod cynllunio hirdymor i fodloni'r galw a meithrin gallu, yn enwedig gwariant cyfalaf;
- Cael eich cloi allan o brosesau cynllunio strategol, neu fod â chapasiti annigonol i weithio'n strategol gyda 22 o awdurdodau lleol ar wahân ledled Cymru.

Mae'r heriau hyn wedi'u dogfennu'n dda yn y dirwedd arbenigol ehangach 'gan ac ar gyfer'. Mae 'A Patchwork of Provision' yn nodi:

'Bod cyllid yn aml yn dymor byr ac yn ansicr, sy'n golygu bod gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd meithrin gallu a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gan effeithio ar effeithlonrwydd, darparu gwasanaethau, ynghyd â recriwtio a chadw staff. Bod y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau (70%) yn dibynnu ar brif ffynhonnell cyllid a sicrhawyd am lai na thair blynedd, gyda dros chwarter y sefydliadau yn dibynnu ar brif ffynhonnell ariannu a barodd lai na blwyddyn. Roedd hyn yn arbennig o ddifrifol i sefydliadau 'gan ac ar gyfer'.

Er ei fod yn fwy effeithiol wrth gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr lleiafrifol, bod diffyg enbyd o gymorth arbenigol 'gan ac o blaid' ledled Cymru a Lloegr, gyda sefydliadau'n cael eu tanariannu'n feirniadol ac yn anghymesur. Bod sefydliadau 'gan ac ar gyfer' chwe gwaith yn fwy tebygol o beidio â chael unrhyw gyllid statudol na sefydliadau VAWG arbenigol neu gam-drin domestig, ac yn llawer mwy tebygol o fod yn darparu cymorth heb unrhyw gyllid penodol³⁹

Mae'n amlwg mai argymhelliad y Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, yw y dylai gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' fod ar gael i ddioddefwyr VAWDASV sydd â NPRF. Er mwyn i'r gwasanaethau hynny weithredu'n dda, rhaid rhoi sicrwydd iddynt drwy gyllid grant mwy hirdymor, sy'n cydnabod eu seilwaith a'u costau gweithredu yn hytrach na bod yn seiliedig ar ddryaniadau untro.

O fis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn symud i drefniadau ariannu tymor hwy ar gyfer cyllid grant. Mae hyn yn creu'r opsiwn i redeg cyllid grant am gyfnod cychwynnol o hyd at dair blynedd, gyda'r posibilrwydd o estyniad am dair blynedd arall, gan greu cyfanswm posibl cyfnod grant o chwe blynedd.

Dylid buddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer goroeswyr VAWDASV gyda NPRF gan ystyried y cyfnod ariannu grant tymor hwy posibl hwn.

Yn ogystal ag ystyried hirhoedledd cyllid, a dryaniadau realistig i dalu costau seilwaith gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector, mae buddsoddiad yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol os caiff ei wneud yng nghyd-destun newid systemig. Mae'n debygol y bydd buddsoddiad mewn prosiect untro tymor byr a gomisiynwyd, i gynorthwyo goroeswyr VAWDASV gyda NPRF, ond yn cael effaith ar yr unigolion a gynorthwyir yn uniongyrchol drwy'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw. Y fantais fwyaf fyddai ymyrraeth systemig ledled Cymru, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i dorri'r cylch 'dryswch uchel/risg uchel/amlder isel.'

Heb gynllun cydlynol ar gyfer newid, gyda chanlyniadau ac amserlenni cysylltiedig, bydd buddsoddiad yn 'annibynnol' ac yn dymor byr, ac ni all obeithio cyflawni mwy na chanlyniadau unigol.

Gwneud cynnydd go iawn yng Nghymru

Mae llawer o waith i'w wneud i gryfhau'r gwasanaethau sydd ar gael i oroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF.

Er mwyn cael rhywfaint o effaith wirioneddol, dylai'r ffocws allweddol fod ar y **camau ymarferol blaenoriaeth uchel canlynol**;

- Canoli tîm arbenigol, gan gryfhau gwasanaethau prif ffrwd i gynorthwyo'r grŵp hwn o bobl yn well, gan anelu at dorri'r cylch 'dryswch uchel/risg uchel/amlder isel';
- Gweithio gyda'r tîm canolog a rhanddeiliaid ehangach i egluro llwybr cyson i Gymru gyfan;
- Buddsoddi mewn cymorth 'cyfnod mynediad brys' ychwanegol i sicrhau bod goroeswyr yn cael eu cynorthwyo o Ddiwrnod 1 ymlaen, heb amheuaeth ynghylch eu statws mewnfudo;
- Cynorthwyo cyllid cynaliadwy hirdymor ar gyfer 'cyfnod mynediad at wasanaethau arbenigol' ymyriadau, trwy ariannu ymyriadau dros gyfnodau hwy, wedi'u hadeiladu ar fodolau cymorth cyfannol yn seiliedig ar dystiolaeth, a ddarperir gan ddarparwyr 'gan ac ar gyfer' arbenigol.

Dylid buddsoddi gyda golwg ar ei **gynaliadwyedd hirdymor**, gan gynnwys mynd i'r afael â'r diffyg data. Yn ddelfrydol, dylem:

- Beidio â buddsoddi mewn gwasanaethau newydd oni bai ei bod yn unol ag arfer da ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor - am o leiaf 3 blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn i 6 blynedd;
- Cynnwys prosesau gwerthuso a chasglu data a ariennir, a gynorthwyr gan arbenigwyr, i unrhyw wasanaethau newydd a gomisiynir. Rhoi ddigon o arolygiaeth a chapasiti iddynt ddolennu'n ôl i'r cynllun strategol a gwaith fersiynau'r llwybr gwasanaeth - gwneud yn fawr o'r cyfle i fynd i'r afael â'r diffyg data.

Dylid cymryd y camau blaenoriaeth ymarferol hyn gan gadw'r **egwyddorion** canlynol mewn cof bob amser:

- Gweithredu'n gyflym i gynorthwyo goroeswyr, ni waeth beth fo'u statws mewnfudo;
- Galluogi mynediad hawdd - cynnig cymorth yn gyntaf, heb lawer o gwestiynau ar y 'pen blaen';
- Cael gafael ar gyngor a chymorth wedi'u rheoleiddio i sefydlu llwybrau i gymhwysedd am gyllid yn gyflym;
- Wrth gomisiynu gwasanaethau newydd, peidio â'u clymu wrth feini prawf cymhwyster cymhleth...
 - Yn lle hynny, gwneud gwasanaethau newydd yn hawdd eu cyrchu, ond eu monitro a'u gwerthuso'n ofalus, i ddysgu oddi wrthynt, gan alluogi meini prawf cymhwyster mwy penodol yn y tymor hwy, os bydd hyn yn fwy effeithiol;

- Peidio â chyfyngu ar fanylebau gwasanaethau newydd o ran pa mor hir y gallant weithio gydag unigolion.
 - Yn lle hynny, monitro pa mor hir y mae angen gwasanaethau ar y rhai sy'n eu defnyddio, ac wedyn defnyddio'r data hwnnw i adeiladu gwasanaethau mwy penodol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn y cam nesaf;
- Gweld gwasanaethau newydd yn gyfle i ddysgu - cynnwys y grŵp ehangach o randdeiliaid yng Nghymru, fel y gallant ddod â'u harbenigedd, a chymryd rhan mewn cylch o fersiynau a gwelliant;
- Sefydlu cynllun clir gydag amserlenni, deilliannau a chanlyniadau arfaethedig - cyd-ddylunio'r rhain fel eu bod yn gyflawnadwy ac nad ydynt yn achosi effeithiau anfwriadol ar wasanaethau sydd eisoes dan bwysau;
- Rhoi dull sy'n ystyriol o drawma wrth wraidd y gwaith – craffu ar y llwybr, cynllun strategol, a gwasanaethau wrth iddynt ddatblygu, gan ofyn ar bob cam a yw'n wirioneddol ystyriol o drawma;
- Peidio ag oedi cyn cymryd camau pellach.
 - Yn lle hynny, gofyn 'beth gallwn ni ei wneud ar hyn o bryd?'

Dylid gwneud y gwaith ymarferol uniongyrchol gyda ffocws strategol ar y system ehangach. Gall a dylai'r gwaith strategol ehangach ddechrau ar unwaith, ond gall gymryd rhagor o amser i'w gyflawni na rhai o'r camau ymarferol. Ni ddylai'r gwaith strategol ohirio gweithredu'r camau ymarferol blaenoriaeth uchel.

Dylai'r gwaith **cynllunio strategol a chyd-destunol** gynnwys camau i:

- Adeiladu cynllun clir ar gyfer sut y bydd y grŵp demograffig hwn yn cael ei gynorthwyo'n well ac yn weithredol yng Nghymru. Ni ddylai fod yn gymhleth, yn hir nac yn rhy ddamcaniaethol. Yn syml, dylai nodi'r camau allweddol i'w cymryd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf i wella pethau, gyda rhai deilliannau ac amserlenni clir, mesuradwy y cytunir arnynt ynghlwm;
- Adeiladu llwybr gwasanaeth y cytunwyd ar gyfer y grŵp hwn, wedi'i gynllunio ar y cyd â rhanddeiliaid yng Nghymru. Seilio hyn mewn gwirionedd, drwy siarad â'r gweithwyr sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac sy'n gwybod sut mae'r systemau'n gweithio. Creu adnoddau gweledol, siartiau llif, lluniau, a dogfennaeth templed manwl clir i gynorthwyo gweithwyr yng Nghymru i lywio'r llwybr ar gyfer y bobl y maent yn ceisio eu cynorthwyo;
- Defnyddio arbenigedd y tîm canolog i greu cyfleoedd uwchsgilio a deunyddiau dysgu ar gyfer gwasanaethau prif ffrwd, i feithrin gallu dros amser; cyfleu'r rhain yn iawn, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyd-destun ehangach yng Nghymru ar gyfer y grŵp hwn, fel bod pobl yn deall bod adnoddau y gallant gael mynediad atynt i'w cynorthwyo yn eu gwaith: y cynllun strategol, y llwybr gwasanaeth, a'r ymrwymiad i wella gwasanaethau yn unol â dull sy'n ystyriol o drawma.

Casgliadau

Mae cyfle sylweddol yng Nghymru i gymryd camau gwirioneddol ymlaen i gynorthwyo goroeswyr VAWDASV sydd ag NRPF yn well.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, gan gynnwys yr argymhelliad i sefydlu cronfa argyfwng ar fyrder i gynorthwyo goroeswyr.

Mae'r gyfres ddiweddaraf o adroddiadau gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn amlinellu'r ffyrdd y gellir modelu gwasanaethau ar sail arfer da a thystiolaeth, i gynorthwyo goroeswyr yn y ffyrdd mwyaf effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod cymorth brys yn cael ei gynnig adeg y cyswllt cyntaf, heb ystyried statws mewnfudo rhywun; comisiynu gwasanaethau cynaliadwy gan ddarparwyr 'gan ac ar gyfer' arbenigol; cynnig gwasanaethau sy'n hyblyg i anghenion hirdymor goroeswyr gan lywio cymhlethdodau'r system fewnfudo; a llunio gwasanaethau o amgylch yr hyn y mae goroeswyr yn dweud wrthym sydd ei angen arnynt fwyaf.

Mae corff sylweddol o ganllawiau yn dod i'r amlwg yng Nghymru hefyd, yn seiliedig ar ddarnau pwysig o ymchwil a chanfyddiadau ac sydd wedi'u hategu ganddynt. Mae hyn wedi'i anelu at wneud y dirwedd ddeddfwriaethol gymhleth yn llai o ddirgelwch, a chreu adnoddau mwy hygyrch.

Gan adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud yng Nghymru a ledled y DU, mae'n bryd defnyddio'r momentwm a ddaw yn sgil buddsoddiad ychwanegol, a'r ffocws a gynigir gan yr ymatebion i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd.

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell y dylid buddsoddi yng nghyd-destun llwybr clir ar gyfer goroeswyr VAWDASV gyda NRPF, a chyda chymorth tîm canolog o arbenigwyr. Fodd bynnag, mae'n cynghori na ddylai datblygu cynllun strategol clir, a llwybr y cytunir arno, achosi oedi wrth gyflwyno gwasanaethau ychwanegol.

Dylid defnyddio dyraniad buddsoddiad ychwanegol fel sbardun, i roi camau ymarferol ar waith a all helpu sefydliadau statudol i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn well, ac i fynd i'r afael â meysydd o'r diffyg data presennol fel y gellir ailadrodd gwasanaethau i'r dyfodol gyda rhagor o eglurder.

Atodiad A: Llyfryddiaeth

Hyb ACE Cymru (Awst 2021) Adolygiad o 'Uncharted Territory' (Ar gael yn: <https://acehubwales.com/wp-content/uploads/2022/07/Uncharted-Territory-Rapid-Review-English-1.pdf>)

Hyb ACE Cymru (2022) Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Ymagwedd gymdeithasol at ddeall, atal a chynorthwyo gydag effeithiau trawma ac adfyd (Ar gael yn: <https://traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Trauma-Informed-Wales-Framework.pdf>)

Adisa O. (2019). The effectiveness of interventions supporting migrant victims/survivors of domestic abuse: An evidence brief. Prifysgol Suffolk. (Ar gael yn: <https://www.uos.ac.uk/sites/www.uos.ac.uk/files/Evidence%20Brief%20Literature%20Review%20Nov%202019.pdf>)

Adisa O. & Allen K. (Mehefin 2021) Migrant Victims of Domestic Abuse: A critical appraisal of evidence from the Home Office Review. Prifysgol Suffolk. (Ar gael yn: https://oars.uos.ac.uk/2396/1/Final%20DACR%20Report%2028_06_2021%20%20%281%29.pdf)

Canolfan Angelou (<https://angelou-centre.org.uk/about/>)
Cyfiawnder Lloches (<https://www.asylumjustice.org.uk/>)
BAWSO (<https://bawso.org.uk/en/>)

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Hydref 2021) Safety before status (Ar gael yn: <https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2021/10/Safety-Before-Status-Report-2021.pdf>)

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Rhagfyr 2022) Safety before status: The Solutions (Ar gael yn: <https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2021/10/Safety-Before-Status-Report-2021.pdf>)

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022) A Patchwork of Provision: Mapping (Ar gael yn: <https://domesticabusecommissioner.uk/national-mapping-of-domestic-abuse-gwasanaethau/>)

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022) A Patchwork of Provision: Summary Report (Ar gael yn: https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2023/02/DAC_Mapping-Abuse-Suivivors_Summary-Report_Feb-2023_Digital.pdf)

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022) A Patchwork of Provision: Technical Report (Ar gael yn: https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2022/11/A-Patchwork-of-Provision_Technical-Report_Nov-2022_Final.pdf)

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (Tachwedd 2022) A Patchwork of Provision: interactive Charts (Ar gael yn: <https://domesticabusecommissioner.uk/first-steps/>)

Y Swyddfa Gartref (Awst 2021) Public Funds - Migrant access to public funds, including social housing, homelessness assistance and social care - Version 18.0 (Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1013601/public-funds-v18.pdf)

Y Swyddfa Gartref (Ionawr 2022) Adroddiad 'Safety before Status' y Comisiynydd Cam-drin Domestig Ymateb y Llywodraeth (Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1044721/Home_Office_Response_to_Safety_Before_Status_Report_FINAL_JAN_2022.pdf)

Y Swyddfa Gartref (Mai 2022) National Statistics - Summary of latest statistics (Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-statistics-year-ending-march-2022/summary-of-latest-statistics>)

Dolen Digartref (<https://homeless.org.uk>)

Hopkins J. & Assami A. (Awst 2021) Uncharted Territory Review (Ar gael yn: <https://acehubwales.com/wp-content/uploads/2022/07/Uncharted-Territory-Rapid-Review-English-1.pdf>)

Housing Justice Cymru (<https://housingjustice.org.uk/cymru/about>)

Jane Hutt AS (Awst 2020) Datganiad ysgrifenedig: Cymorth i'r rhai nad oes ganddynt Hawl i Arian Cyhoeddus (Ar gael yn: <https://www.gov.wales/written-statement-support-those-no-recourse-public-funds>)

Gwasanaeth Ceiswyr Lloches Anghenus (2019) rom Pillar to Post (Ar gael yn: <https://www.rst.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/From-Pillar-to-Post-Feb-2019.pdf>)

[legislation.gov.uk](https://www.legislation.gov.uk) (1999) Deddf Mewnfudo a Lloches (Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1999/33/contents>)

Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru (Mai 2015) Ymchwil i sut mae statws 'Dim Hawl i Arian Cyhoeddus' yn effeithio ar y rhai sy'n profi trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru (Ar gael yn: <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=494>)

Malfait R. & Scott-Flynn N. (Awst 2019) Evaluation of the Pre Action Protocol Pilot (Ar gael yn: https://d195fe63-5d46-4c4f-9e7c-909b1d5c5ab4.filesusr.com/ugd/52ee2f_f16d8cfad90348288aa0d168ca24dfda.pdf)

Migration Scotland (Dim dyddiad) (Ar gael yn: <https://migrationscotland.org.uk/migrants-rights-and-entitlements/introduction/>)

Awduron lluosog (Chwefror 2021) Sicrhau bod goreswyr VAWDASV sydd heb Hawlio Cronfeydd Cyhoeddus yn cael mynediad cyfartal at ddiogelwch a chymorth: Papur briffio i'w ystyried gan Grŵp Llywio NRPF VAWDASV a Thîm Cyfreithiol Llywodraeth Cymru (ddim ar gael i'r cyhoedd)

Rhwydwaith NRPF (<https://www.nrpfnetwork.org.uk/>)

Rhwydwaith NRPF (Medi 2021) Crynodeb data NRPF Connect, blwyddyn ariannol 2020-2021 - Nodyn Briffio (Ar gael yn: <https://nrpfnetwork.org.uk/-/media/microsites/nrpf/documents/nrpf-connect/nrpf-connect-data-summary-briefing-note.pdf?la=en&hash=843D53D120FE91A578683563D4E3769F48CA6E19>)

Canllawiau Rhwydwaith NRPF ar gymorth cyfreithiol (Ar gael yn: <https://www.nrpfnetwork.org.uk/information-and-resources/rights-and-entitlements/legal-aid/what-is-covered-by-legal-aid#guide-content>)

Petch H. & Stirling T. (Ebrill 2020) Providing accommodation for refused asylum seekers in Wales (Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-08/feasibility-study.pdf>)

Rights of Women (2017) Domestic violence and immigration law - the domestic violence rule (Ar gael yn: https://rightsof-women.org.uk/wp-content/uploads/2014/09/ROW_Domestic-Violence-A4-DIGITAL.pdf)

Rights of Women (Medi 2017) Athena Project Final Evaluation Report (Ar gael yn: <https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/RoW-Athena-Project-Final-Evaluation-Report.pdf>)

Rights of Women (2011) Silenced voices speak: Strategies for protecting migrant women from violence and abuse Rights of Women (Ar gael yn: <https://rightsofwomen.org.uk/wp-content/uploads/2014/10/Silenced-voices-speak-2011.pdf>)

Gwybodaeth Southall Black Sisters am y Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr Ymfudol (Ar gael yn: <https://southallblack-sisters.org.uk/our-services/sbs-no-recourse-fund/smv-scheme/>)

Llywodraeth yr Alban (Chwefror 2019) Migrants' Rights and Entitlements to Local Authority Services and Support National Guidance (Ar gael yn: <https://www.migrationscotland.org.uk/uploads/Migrants%20Rights%20and%20Entitlements%20Guidance.pdf>)

Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Senedd yr Alban (Mai 2017) Hidden Lives - New Beginnings: Destitution, asylum and insecure immigration status in Scotland (Ar gael yn: <https://sp-bpr-en-prod-cdnep.azureedge.net/published/EHRIC/2017/5/22/Hidden-Lives---New-Beginnings--Destitution--asylum-and-insecure-immigration-status-in-Scotland/3rd%20Report.pdf>)

Tai Pawb (Chwefror 2021) Lleihau digartrefedd ymysg ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches: canllaw arferion da (Ar gael yn: <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2962>)

Prifysgol Birmingham a Sefydliad Ymchwil i Uwch-amrywiaeth (Mai 2022) Forced migration and sexual and gender-based violence: findings from the SEREDA project in Wales (Ar gael yn: <https://www.birmingham.ac.uk/documents/college-social-sciences/social-policy/iris/2022/sereda-wales-report.pdf>)

Partneriaeth Ymfudo Cymru (Mawrth 2015) Uncharted Territory: violence against migrant, refugee and asylum-seeking women in Wales (Ar gael yn: <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1828>)

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel i Gymru (<https://safer-communities.wales/>)

Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Cenedl Noddfa (Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/nation-of-sanctuary-refugee-and-asylum-seeker-plan_0.pdf)

Llywodraeth Cymru a Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru (Chwefror 2020) Mynediad at wasanaethau cymdeithasol a gofal a chymorth arall ar gyfer ceiswyr lloches anghenus heb unrhyw hawl i arian cyhoeddus (Ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/access-to-social-services-and-other-care-and-support-for-destitute-asylum-seekers-with-no-recourse-to-public-funds.pdf>)

Llywodraeth Cymru (Mehfein 2022, diweddarwyd Tachwedd 2022) NRPf: Canllawiau i helpu gwasanaethau lleol i gynorthwyo pobl nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus' (Ar gael yn: <https://www.gov.wales/no-recourse-public-funds-nrpf-guidance-html>)

Ymateb Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2022) i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar drais ar sail Rhywedd ac anghenion menywod mudol (Ar gael yn: <https://senedd.wales/media/daxczuvl/gen-ld15523-e.pdf>)

Llywodraeth Cymru (Ionawr 2023) Integreiddio mudwyr: ymchwil ar wasanaethau cyngor cyfreithiol mewnfudo (Ar gael yn: <https://www.gov.wales/adequacy-and-availability-immigration-legal-advice-forced-migrants-wales-findings-html>)

Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru (Hydref 2022) Trais ar sail rhywedd: anghenion menywod mudol (Ar gael yn: <https://senedd.wales/media/zh5helfw/cr-ld15422-e.pdf>)

Cymorth i Ferched Cymru (2021-22) Pecyn cymorth ar hawliau goroeswyr VAWDASV sy'n destun rheolaeth mewnfudo (Ar gael yn: <https://welshwomensaid.org.uk/what-we-do/campaigning/toolkit-on-the-rights-of-vawdasv-survivors-subject-to-immigration-control/>)

Women's Aid (2017) Nowhere to turn (Ar gael yn: <https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/NWTA-2017.pdf>)

Atodiad B: Y Cyfweleion a Gyfrannodd

Natalie Blakeborough	Hyb ACE Cymru
Huw Charles	Llywodraeth Cymru
Andrea Cleaver	Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Anne Hubbard	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Amelia John	Llywodraeth Cymru
Sara Patrieirch	Cymorth i Ferched Cymru
Wanjiku Mbugua	BAWSO
Kiera McNulty	Housing Justice Cymru
Angelina Rodrigues	Llywodraeth Cymru
Jenna Turnbull	Llywodraeth Cymru
Bonnie Williams	Housing Justice Cymru



Hyb ACE Cymru
ACE Hub Wales

Sefydlwyd Hwb Cymorth ACE yn 2017 i gefnogi gweithwyr proffesiynol, sefydliadau, a'r gymuned i helpu i greu Cymru sy'n ymwybodol o ACEs. Ei chenhadaeth yw ymdrin ag ACEs a'u hatal a'u lliniaru drwy rannu syniadau a dysg, a herio a newid ffyrdd o weithio, fel y gallwn dorri'r cylch ACEs gyda'n gilydd. Ariennir Hwb Cymorth ACE gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gweithio'n agos gydag arweinwyr ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddatblygu a chyflawni'r agenda ACEs, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, tai, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, a chyrrff chwaraeon, yn ogystal â'r gymuned leol. Mae Hwb Cymorth ACE yn cael ei letya gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n rhan o Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Cymorth ACE

Cyfeiriad: Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: ACE@wales.nhs.uk

Gwefan www.acehubwales.com